
Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023

2023



Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag adrannau 41 a 41(5) o Ddeddf Ceiropractyddion 1994, fel a ddiwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2008.

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (CCC) yw rheolydd annibynnol ceiropractyddion y DU. Mae'r CCC yn atebol i Senedd y DU ac mae'n destun craffu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA). Dyletswydd statudol y CCC yw datblygu a rheoleiddio'r proffesiwn ceiropracteg, a thrwy hynny diogelu cleifion a'r cyhoedd.

© Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (2024)

Gellir ailgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y caiff ei ailgynhyrchu'n gywir a ddim mewn cyd-destun sy'n camarwain. Rhaid cydnabod hawlfraint y CCC dros y deunydd, a nodi teitl y ddogfen yn benodol.

Gellir anfon yr holl ymholiadau am yr Adroddiad Blynyddol hwn i CCC, Park House, 186 Kennington Park Road, Llundain SE11 4BT.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan y CCC yn https://cy.gcc-uk.org/about-us/publications

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

# Ynglŷn â'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

**Mae'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (CCC) yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio'r proffesiwn ceiropracteg yn y DU, Ynys Manaw a Gibralter. Ei rôl yw diogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy sicrhau'r safonau uchaf o ymarfer yn y proffesiwn ceiropracteg.**

Wedi'i sefydlu gan Ddeddf Ceiropractyddion (1994), mae'r CCC yn un o ddeg rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Cafodd ei gyfrifoldebau rheoleiddio eu hehangu drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015, sy'n pennu y dylai'r holl reoleiddwyr:

1) Diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
2) Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn eu proffesiynau perthnasol.
3) Hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn hwnnw.

Mae gan y CCC ddyletswydd yn unol â'r Ddeddf Ceiropractyddion i ddatblygu'r proffesiwn. Mae'n cyflawni'r ddyletswydd hon drwy:

1) Cynnal cofrestr genedlaethol o geiropractyddion. Ni all person ymarfer na disgrifio ei hun fel ceiropractydd oni bai ei fod wedi cofrestru gyda'r CCC.
2) Cynnal y Côd safonau ymddygiad, perfformiad ac ethig i geiropractyddion.
3) Gweithredu os na fydd ceiropractydd yn bodloni'r safonau sydd yn y Côd.
4) Gosod safonau addysgol i unigolion sy'n hyfforddi i fod yn geiropractyddion.

Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

# Cynnwys

Adroddiad a Chyfrifon y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ........ 1

Ynglŷn â'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ........ 3

Adolygu'r Flwyddyn ........ 5

Strategaeth y CCC 2022 – 2024 ........ 10

Ein Perfformiad yn 2023 ........ 11

- Rhoi cleifion a'u gofal wrth wraidd holl waith y CCC ........ 12
- Hyrwyddo ymarfer gorau ceiropractig parhaus, proffesiynoldeb a gwerth yn y system iechyd a gofal cymdeithasol ........ 15
- Rheoleiddio'n effeithiol, yn effeithlon, yn arloesol ac yn gynhwysol ........ 19
- Gwella natur a ffurf rheoleiddio'r proffesiwn yn y dyfodol ........ 24

Rheoli risg, sicrwydd a rheoli gwybodaeth ........ 25

Datganiad Llywodraethu Blynyddol ........ 27

Adroddiad a chyfrifon ariannol ........ 34

Adolygiad ariannol ........ 36

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ........ 40

Datganiadau ariannol 2023 ........ 42

Nodiadau i'r cyfrifon ........ 45

Manylion cyfreithiol a gweinyddol ........ 56

# Adolygu'r Flwyddyn



**Mabwysiadwyd Strategaeth bresennol y Cyngor yn 2021, gan amlinellu ein hamcanion ar gyfer 2022 – 2024. Fe'i datblygwyd mewn ymateb i'r tirlun iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn newid, a'r heriau roedd yn rhaid eu hwynebu. Roedd ein hamcanion yn uchelgeisiol, ac rwyf wrth fy modd bod yr ail flwyddyn o'u rhoi ar waith wedi arwain at gynnydd sylweddol, gan gynnwys bodloni Safonau Rheoleiddio Da'r PSA i gyd.**

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb yn ein cynllun gweithredu yn dangos bod ystyriaethau amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u gweu drwy ein gwaith: yn y safonau rydym yn eu gosod; yn y canllawiau rydym yn eu rhoi i'r proffeswn; ac yng nghyfansoddiad ein staff, ein pwyllgorau a'r Cyngor. Rwyf hefyd yn falch bod ein disgyblaethau ariannol bellach wedi'u sefydlu'n dda, sef fy nod yn dilyn cyflwyno ein strategaeth ariannol yn 2017. Eleni, fel y llynedd, cafwyd swm bach dros ben felly unwaith yn rhagor, nid yw hi wedi bod yn ofynnol cynyddu ffioedd cofrestru.

Dyma fy adroddiad blynyddol olaf ers i fi ddod yn Gadeirydd y Cyngor yn 2017 oherwydd cyhoeddais i'n ystod yr had y byddaf yn camu i lawr ar ddiwedd y flwyddyn. Mae wedi bod yn fraint i arwain gwaith llywodraethu'r CCC. Hoffwn ddiolch i'r staff, dan arweiniad Nick Jones, am eu gwaith caled a'u hymrwymiad; i'n rhanddeiliaid niferus am eu cydweithio adeiladol; y proffesiwn; aelodau ein pwyllgorau; a'm cyd-aelodau o'r Cyngor rwyf yn ddyledus iddynt am eu holl gymorth. Rwyf wrth fy modd y penodwyd fy olynydd gan y Cyfrin Gyngor.

Fel rheolydd, ein cyfrifoldeb pennaf yw gosod a chynnal safonau ar gyfer gofal diogel a safon i gleifion. Dyletswydd arall yw datblygu'r proffesiwn ceiropractig. Y llynedd, cymeradwyodd y Cyngor Safonau Addysg newydd, gan sicrhau y caiff ceiropractyddion eu hyfforddi ar gyfer gofal o safon, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar gleifion. Daeth y Safonau i rym ym mis Mawrth, a rhoddwyd ein disgwyliadau ar waith yn gyflym gan ddarparwyr addysg.

Yn ystod yr haf, ffarwelion ni â Sharon Oliver sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol i sector addysg llewyrchus y proffesiwn fel Cadeirydd y Pwyllgor Addysg. Goruchwyliodd y Pwyllgor ddatblygiad a gweithrediad y Safonau newydd, yn ogystal â chroesawu dau ddarparwr newydd, a mwy ar y gorwel. Mae Sharon yn ymadael gan adael effaith ar y Cyngor, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi ac yn dymuno'r gorau iddi.

Yn ei gyfarfod olaf yn 2023, penderfynodd y Cyngor adnewyddu'r Côd, sef safonau sylfaenol medrusrwydd ac ymddygiad ceiropractyddion, erbyn diwedd 2024. Bydd cyflawni'r nod hwnnw yn gyflawniad sylweddol, gan iddo gynnwys ymgysylltiad llawn gan y proffesiwn a rhanddeiliaid â'r adolygiad a'r gwaith datblygu. At ei gilydd, bydd y Safonau Addysg newydd a'r Côd Ymarfer Proffesiynol newydd yn cynnig fframwaith cadarn i gefnogi darpariaeth gofal o safon a diogel a fydd yn sail i enw da'r proffesiwn ac yn ei alluogi i oresgyn heriau iechyd a gofal ein cymunedau yn nawr ac yn y dyfodol. Mae'r cyfle yno i ni achub arno.

Mae'n bleser mawr i mi drosglwyddo'r ffon i Jonathan McShane. Bydd cyfoeth ei brofiad a'i ymrwymiad i ofal iechyd yn siŵr o yrru'r CCC a'r proffesiwn yn eu blaenau.

Yn olaf, rwyf wedi bod yn galw am gynnydd cyflymach ar ddiwygio rheoleiddio ers blynyddoedd. Amser a ddengys sut y bydd camau diweddar gan y Llywodraeth mewn perthynas â'r proffesiwn meddygol yn effeithio ar reoleiddio'r proffesiwn ceiropractig, ond rwyf yn obeithiol bod y tebygrwydd o alluogi'r fframwaith rheoleiddio modern ar draws yr holl broffesiynau gofal iechyd bellach llawer yn uwch. Edrychaf ymlaen at weld newidiadau i reoleiddio ceiropracteg, gyda'r holl welliannau y bydd y newidiadau hynny'n eu cynnig i gleifion a'r proffesiwn.

**Mary Chapman**

**Cadeirydd y Cyngor, 31 Rhagfyr 2023**

# Adolygu'r Flwyddyn



## Hoffwn dalu teyrnged i arweiniad Mary ers 2017, gan gynnwys y cyflawniadau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn ac adroddiadau blaenorol.

Rwyf wrth fy modd i gael fy mhenodi'n Gadeirydd, ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gael y cyfle i arwain y Cyngor a pharhau i ddatblygu ar y cyflawniadau hynny wrth i'r CCC fentro i'r cyfnod nesaf o ddatblygiad. Edrychaf ymlaen at arwain y Cyngor wrth ddatblygu strategaeth y CCC ar gyfer 2025-2030 a'r safonau newydd a amlinellwyd yn y Côd.

Fy nghyfrifoldebau pennaf i yw i'r cleifion. Mae fy ngwaith ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol wedi dangos i mi pwysigrwydd pennaf rheoleiddio effeithiol i ddiogelwch cleifion a gwelliant gofal yn gyffredinol.

Bydd rheoleiddio da a dangosadwy yn helpu i ddatblygu ymddiriedaeth bellach yn y proffesiwn; ac edrychaf ymlaen at weithio'n gydweithredol gyda phartneriaid ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig i wella enw da ceiropractyddion y DU ymhellach fel gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n barod ac yn gymwys i ymateb i anghenion cynyddol y gwledydd.

**Jonathan McShane**

**Cadeirydd y Cyngor, 1 Ionawr 2024**



## Mae'r crynodeb hwn yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd gennym yn 2023, ac mae rhagor o wybodaeth ar y tudalennau canlynol. Roedd yn flwyddyn o waith caled a chyflawniadau sylweddol.

Erbyn hyn, mae ein gwaith wedi'i lywio mewn ffordd ystyrlon gan fuddiannau cleifion a'r cyhoedd – gydag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o geiropracteg fel proffesiwn a reoleiddir. Mae ein canllawiau a'n pecynnau cymorth a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn yn canolbwyntio ar bryderon cleifion. Hynny yw, y meysydd hynny lle weithiau, bydd pethau'n mynd o'u lle. Ein gobaith yw y bydd y canllawiau newydd, wedi'u diweddaru, a'r adnoddau eraill yn gosod ein disgwyliadau ac yn llywio ymarfer ceiropractyddion sy'n gofrestredig gyda ni.

Weithiau, nid yw safon y gofal yn ddigonol, a rhaid i ni ymchwilio i'r holl gwynion a wneir am unigolyn sy'n gofrestredig gyda ni. Nifer fach o'r rhain sydd, er bod y nifer a dderbyniwyd wedi cynyddu gan chwarter o'i chymharu â 2022. Aethon ni ati i wella ein prosesau rheoleiddio, gan ddiogelu cleifion ymhellach, a gweithio tuag at ddatrysiad cyflymach er budd y rhai sy'n cwyno a'r rhai sy'n gofrestredig gyda ni. Roedd yr amser i symud ymlaen ag ymchwiliadau mwy difrifol yn well. Bwriedir cyflwyno cronfa fwy o 'dystion arbenigol' a mwy o aseswyr clinigol a gwelliannau eraill i leihau'r amser mae ei angen i gau ymchwiliadau.

Daeth Safonau Addysg newydd y CCC i rym ym mis Mawrth. Rwyf yn talu teyrnged i ddarparwyr addysg geiropractig, sydd wedi mabwysiadu'r safonau newydd yn barod i'n hasesiadau perthnasol o'u gweithrediad. Mae twf diweddar mewn sefydliadau sy'n ceisio cynnig rhaglenni ceiropractig

yn parhau i fod yn amlwg. Yn gryno, dyma sector ffyniannus sy'n paratoi'r proffesiwn ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn edrych ar weithgareddau drwy lens sy'n ceisio sicrhau na fydd neb yn cael ei gadael ar ei hôl hi, a'n bod ni'n gynhwysol. Rhoddon ni ein cynllun gweithredu ar waith i wneud hynny. Wrth ddatblygu Safonau Addysg, cafodd ein disgwyliadau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eu cryfhau. Bu'n rhaid i ni ystyried a oedd ein gweithgareddau ffitrwydd i ymarfer yn wahaniaethol drwy amryfusedd. Adnewyddwyd ein hymarferion recriwtio gennym, ac mae cyfansoddiad ein tîm, ein Cyngor a'n Pwyllgorau'n adlewyrchu ein cymuned yn well. Cydnabuwyd ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan y Gymdeithas Safonau Proffesiynol (PSA).

Aethon ni ati i gael ein hystyried fel cyfrannwr gwerthfawr at ddatblygiad system rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n agored i benderfyniadau ac opsiynau a allai fod yn amlwg yn y dyfodol. Yn yr haf, cyflwynodd y CCC ymateb manwl a chynhwysfawr i gyhoeddiad cynigion y llywodraeth ar gyfer diwygio rheoleiddio iechyd a gofal. Roedd budd enfawr i'r ymateb yn sgil cyfranogiad cleifion a chymdeithasau a chyrff proffesiynol ac, o ganlyniad, mae'n enghraifft o broffesiwn a rheolydd yn gweithio ar y cyd er budd y cyhoedd. Er i ni groesawu'r cynigion fel rhai a oedd yn gadarnhaol i gleifion, y cyhoedd a'r proffesiwn, amlygon ni bryderon o bwys. Roeddem yn falch iawn i weld y pryderon hynny'n cael eu hystyried ym mis Rhagfyr wrth gyhoeddi Gorchymyn y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Yn olaf, mae'n dda i dderbyn cydnabyddiaeth allanol. Aethon ni ati i gael sgôr uchel gyda'r Awdurdod Safonau Proffesiynol, a bodloni holl safonau rheoleiddio da gan ddangos ein hagoredrwydd i ymagweddau arloesol at reoleiddio – ac fe'i cyflawnwyd hyn. Yn gryno, i mi, mae'r cyhoeddiad o adolygiad perfformiad y CCC ym mis Awst a oedd yn nodi bod y CCC yn bodloni pob un o'r 18 Safon Rheoleiddio Da yn brawf o genhadaeth ac ymrwymiad y Cyngor, ei staff a'r holl bartneriaid sy'n rhan o'n gwaith.

**Nick Jones**

**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**

2023

# Cipolwg ar 2023

Nifer y ceiropractyddion ar y Gofrestr:

**3,752**

**+4.8%**

Nifer y graddedigion o raglenni ceiropractig a gymeradwywyd yn y DU:

**349**

Nifer y sefydliadau sy'n darparu rhaglenni addysg ceiropractig a gymeradwywyd:

**5**






Ymgeiswyr o dramor sy'n ymuno â'r Gofrestr sydd wedi cwblhau'r Prawf Cymhwysedd yn llwyddiannus:

**31**

Canllawiau a phecynnau cymorth a gyhoeddwyd:

**5 pecyn cymorth**

**1 canllaw**



Chwiliadau o'r gofrestr ar wefan y CCC:

**120,000**

## CYFARFODYDD

**4** Cyfarfod y Cyngor

**3** Cyfarfod y Pwyllgor Addysg

**4** Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg

**3** Cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol



Nifer y cwynion a dderbyniwyd am ffitrwydd ceiropractyddion i ymarfer:

**66**

Amser cyfartalog mewn wythnosau o dderbyn cwyn i benderfyniad gan y Pwyllgor Ymchwilio:

**58**

Nifer y cyfarfodydd Pwyllgor Ymchwilio o sylwedd:

**15**

Nifer gwrandawiadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol:

**11**

O'r rhai hynny, nifer gwrandawiadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol lle canfuwyd ymddygiad proffesiynol annerbyniol: **5**

Nifer yr achosion S32 (camddefnyddio teitl) a orffennwyd:

**48**

Safonau Rheoleiddio Da'r Awdurdod Safonau Proffesiynol a fodlonwyd:

**18 allan o 18**

Nifer y cyflogeion: **17**

| | |
|---|---|
| Incwm: | **£3.125m** |
| Gwariant: | **£3.070m** |
| Swm dros ben: | **£55k** |
| Cronfeydd: | **£3.401m** |

**Cyngor Ceiropractig Cyffredinol**

# Strategaeth 2022-2024 y CCC

Caiff pedwar nod Strategaeth 2022-2024 y CCC eu cyflawni drwy gyflawni'r 12 amcan ar draws amserlen tair blynedd y strategaeth. Mae cynllun busnes blynyddol yn amlinellu'r amcanion ar gyfer pob blwyddyn o'r strategaeth. Mae'r adroddiad hwn ar 2023 - sef ail flwyddyn strategaeth bresennol y CCC.

**Un**
Cleifion a'r Cyhoedd

### Rhoi cleifion a'u gofal wrth wraidd holl waith y CCC

Datblygu dealltwriaeth well o anghenion a disgwyliadau cleifion, fel y gellir adlewyrchu'r rhain yng ngwaith y CCC.

Hyrwyddo safonau ceiropractig sy'n ystyried anghenion a disgwyliadau cleifion yn llawn.

Creu, gwella a dosbarthu gwybodaeth i helpu cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal ceiropractig.

---

**Dau**
Ceiropractyddion

### Hyrwyddo ymarfer gorau ceiropractig parhaus, proffesiynoldeb a gwerth yn y system iechyd a gofal cymdeithasol

Nodi, casglu a dadansoddi data a mewnwelediadau o weithgareddau rheoleiddio a statudol.

Rhannu dysgu drwy gasglu a dosbarthu data mewnol y CCC ac ymchwil i'r cyhoedd, i gleifion a phobl sydd wedi cofrestru gyda ni.

Gweithio gyda darparwyr addysg a rhanddeiliaid i barhau i ddatblygu a hyrwyddo proffesiynoldeb pobl sydd wedi cofrestru gyda ni.

---

**Tri**
Y CCC

### Rheoleiddio'n effeithiol, yn effeithlon, yn arloesol ac yn gynhwysol

Gweithredu pan a lle rydym yn nodi ymarfer gwael, o gwynion, camddefnyddio teitlau neu pan na fydd gofynion cofrestru, gan gynnwys bodloni DPP blynyddol, yn cael eu bodloni. Gosod a hyrwyddo gofynion addysgol, proffesiynol a chofrestru, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn addas at y diben.

Bod yn sefydliad cynaliadwy ac effeithiol sy'n ymrwymedig i gydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch cymdeithasol.

---

**Pedwar**
Y Proffesiwn

### Gwella natur a ffurf rheoleiddio ar gyfer y proffesiwn yn y dyfodol


'Llywio dyfodol' gwaith rheoleiddio'r proffesiwn, drwy ddylanwadu ar gasgliadau ymgynghoriad ac adolygiad o reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol y Llywodraeth.

Meithrin gwaith rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, gyrru effeithiolrwydd a chwilio am gyfleoedd i ddirprwyo a/neu ddatblygu arbedion main.

Gyrru datblygiad rheolau i'w rhoi ar waith pan fydd newid deddfwriaethol y cytunir arnynt.

# Ein Perfformiad yn 2023

Dyma ail flwyddyn Strategaeth 2022-2024 tair blynedd y CCC. Caiff cynnydd tuag at y strategaeth ei adolygu gan y Cyngor ym mhob cyfarfod, wedi'i fesur yn erbyn yr ymrwymiadau yn y cynllun busnes blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu ein cyflawniadau o dan bob nod strategol.



NOD 1

# Nod Strategol 1:

## Rhoi cleifion a'u gofal wrth wraidd holl waith y CCC

### Adroddiad Boddhad Cleifion

Mae'r Adroddiad Boddhad Cleifion (PATSAT), a gwblhawyd ym mis Ionawr 2023 gan ymchwilwyr yng Ngholeg Prifysgol AECC yn y DU, yn cynnig dealltwriaeth gyfoes sy'n seiliedig ar dystiolaeth o brofiadau o ofal ceiropractig a ddarparwyd gan geiropractyddion yn y DU, a'r boddhad ag ef. Comisiynwyd yr ymchwil gan y CCC.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol, a data newydd a gasglwyd gan 291 o gleifion y DU. Canfu'r astudiaeth fod cleifion ceiropractig yn adrodd lefelau uchel o foddhad a phrofiadau cadarnhaol gyda'u gofal. Mae ffactorau megis ymgynghreirio a chyfathrebu therapiwtig yn gysylltiedig yn gryf â'r canfyddiadau cadarnhaol hyn gan gleifion er bod ffactorau eraill, megis credoau am driniaeth, hefyd yn cael eu cysylltu'n sylweddol â sgoriau boddhad.

Mae effaith gadarnhaol yr ymgynghreirio therapiwtig wedi'i hamlygu gydag unigolion sydd wedi cofrestru gyda'r CCC fel rhan o'r ffocws DPP 2023 ar gyfathrebu, a chaiff ei hystyried fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth wrth ddatblygu'r Côd newydd.

*"Fe wnaeth e wirioneddol wrando ar yr hyn oedd gen i i'w ddweud. A'r hyn oedd wedi digwydd, a'r hyn oedd yn brifo a pham oeddwn i yno."*

Cyfweledig PATSAT

### Nod Rwyf yn Gofrestredig

Ymgynghorwyd â Phanel Cleifion y CCC ym mis Mehefin 2023 i ddeall gwerth cofrestriad gyda'r CCC i gleifion a mesur ymatebion i'r nod Rwyf yn Gofrestredig a negeseuon sy'n hyrwyddo cofrestriad.

*"...Gallaf chwilio drwy Google ond mae angen i mi sicrhau eu bod nhw wedi'u cofrestru'n briodol i hawlio ar fy nghynllun iechyd, felly gallaf hefyd chwilio drwy wefan y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol."*

Aelod o'r Gymuned Cleifion

Canfu'r ymchwil fod defnyddio'r nod Rwyf yn Gofrestredig yn anfon neges glir at gleifion, a gweithwyr gofal iechyd eraill, fod ceiropracteg yn broffesiwn sydd wedi'i reoleiddio gyda Chôd Ymarfer.

Drwy gydol 2023, rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Datblygu cysylltiadau cryfach rhwng y gofrestr a gwerth cofrestriad drwy'r nod Rwyf yn Gofrestredig drwy ddatblygu'r esboniad a ddefnyddir gyda chofnodion ar y gofrestr.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r nod ymhlith ceiropractyddion a gweithwyr iechyd eraill: mae 250 o geiropractyddion unigol wedi lawrlwytho eu posteri "Rwyf yn Gofrestredig" wedi'u personoli o'r porth (gan gynnwys 8 yn Gymraeg).
- Cysylltu'r nod â'r cofnod cofrestr unigol gyda dolen neu gôd QR: Cyhoeddwyd tystysgrifau unigolion newydd sydd wedi cofrestru yn 2023 gyda'r nod a'r côd QR, ac yn 2024 bydd hyn yn tyfu i gynnwys yr holl dystysgrifau cofrestru. Sganiwyd y codau QR 217 o weithiau.

# Hyrwyddo proffesiynoldeb: Cefnogi unigolion sy'n cofrestru i wella gofal cleifion

Mae rhoi cleifion yn gyntaf yn ofyniad ar bobl sy'n cofrestru gyda ni. Mae gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion yn golygu cefnogi cleifion i gymryd rôl weithredol yn eu triniaeth a thrin yr holl gleifion gyda pharch ac yn deg. Mae unigolion sydd wedi cofrestru yn gweithio'n galed i ddarparu safon uchel o driniaeth ddiogel ac effeithiol i gleifion ac i hyrwyddo pecynnau cymorth a gyhoeddwyd gan y CCC ar broffesiynoldeb ym maes ceiropracteg:

- Dangos proffesiynoldeb drwy ofal sy'n canolbwyntio ar gleifion: Cyngor ymarferol ar gymryd ymagwedd broffesiynol at ofal sy'n canolbwyntio ar gleifion i helpu i wella profiad cleifion a gwella canlyniadau cleifion.
- Gwella Gofal Cleifion Drwy Arweinyddiaeth: Gosod enghraifft i dimau ei dilyn i sicrhau'r safonau uchaf o ofal cleifion. Gydag awgrymiadau i bobl sydd wedi cofrestru ar sut i feithrin diwylliant o ymddiriedaeth, parch a chydweithio mewn tîm, mae'r pecyn cymorth yn adnodd gwerthfawr i arweinwyr a rheolwyr ym mhob rhan o'r proffesiwn ceiropractig.
- Gwella Gofal Cleifion drwy Gymhwysedd: Mae dangos y lefelau uchaf o gymhwysedd fel gweithiwr gofal iechyd yn hanfodol i ennill ymddiriedaeth a hyder cleifion. I geiropractyddion, golyga cymhwysedd ddangos yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i drin cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Canllawiau a phecynnau cymorth

### 1. Dyletswydd o Onestrwydd

Ym mis Medi, cyhoeddodd y CCC ganllawiau wedi'u diweddaru gyda phwyslais newydd ar wneud 'ymddiheuriad' yn elfen hanfodol; amlygu y gall digwyddiadau andwyol hefyd ddod o wallau mewn cyngor a gwybodaeth yn ogystal â gofal ymarferol; a hyrwyddo agoredrwydd ac onestrwydd.

Yn dilyn cyhoeddiad y canllawiau, gweithiodd Panel Cleifion y CCC gyda Phanel Cleifion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol i archwilio'r Ddyletswydd o Onestrwydd. Canfu'r ymchwil hon fod dealltwriaeth eang ymhlith cleifion o'r cysyniad o onestrwydd, er bod diffyg cydnabyddiaeth o'r term 'candour' ei hun yn Saesneg. Roedd cleifion yn sympathetig am yr heriau y gallai ymarferwyr eu hwynebu wrth ymarfer yn glinigol, ond rhoddwyd gwerth mawr ar dryloywder, agoredrwydd ac onestrwydd gan eu ceiropractydd.

*"Gyda digwyddiadau sy'n osgoi damwain o drwch blewyn, mae pethau y gallwn eu dysgu. Felly pe bai rhywbeth wedi gallu digwydd, ond ni wnaeth; ond os byddaf yn ei amlygu, mae'n cael ei gofnodi'n rhywle, gellid ei gymryd o ddifrif. Oherwydd gall unrhyw beth fynd o'i le – eto, gwall dynol – mae'n debygol y bydd rhywun arall yn gwneud yr un peth."*

Aelod o'r Gymuned Cleifion

### 2. Cydsyniad

Gan ddatblygu ar y canllawiau a ddiweddarwyd i bobl sy'n cofrestru gyda ni, datblygodd y CCC becyn cymorth i gefnogi trafodaethau â chleifion ynghylch cydsyniad. Mae cael cydsyniad gwybodus am holl agweddau ar ofal cleifion yn rhan hanfodol o driniaeth geiropractig, fel a amlinellwyd yn Y Côd, ac yn dangos bod gan glaf dealltwriaeth ddigonol o'i opsiynau triniaeth a'i fod yn hapus i barhau.

Mae'r pecyn cymorth 'Cefnogi Cydsyniad Gwybodus' yn cynnig awgrymiadau a chanllawiau i helpu ceiropractyddion cofrestredig i gael cydsyniad gwybodus ac annog penderfyniadau ar y cyd â chleifion. Er enghraifft, drwy ddarparu amrywiaeth eang o wybodaeth sydd wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion penodol claf.

Dilynodd y datblygiad o becyn cymorth drafodaethau â Chymuned Cleifion y CCC ynghylch eu dealltwriaeth a'u disgwyliadau o gydsyniad gwybodus wrth ymweld â cheiropractydd. Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil cleifion llawn yn 2023.

*"Yn y bôn, cydsyniad yw caniatâd i'ch trin, a dylid gofyn bob dros: "Ydych chi'n hapus i mi barhau?"*

Aelod o'r Gymuned Cleifion

### 3. Delweddu diagnostig

Disgwylir i'r holl geiropractyddion allu comisiynu a dehongli delweddau clinigol yn hyderus. Mae ceiropractyddion cofrestredig wedi'u heithrio o gofrestru cyfarpar pelydr-x gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal (cyhyd â bod y cyfarpar yn cael ei weithredu gan y ceiropractydd, fel rhan o gadarnhau diagnosis a awgrymir yn glinigol). Mae'r eithriad hwn a chyfrifoldebau gweithredu cyfarpar pelydr-x yn bryder i'r CCC gan fod risg sylweddol y gall y niwed fod yn fwy na'r budd clinigol wrth ddefnyddio pelydriad ïoneiddio.

Yn hwyr yn 2023, comisiynodd y CCC arbenigwr annibynnol i baratoi dau becyn cymorth a oedd yn ymwneud â delweddu diagnostig – un i'r holl geiropractyddion a oedd yn sicrhau bod eu dealltwriaeth o'r risgiau a'r buddion o gomisiynu a dehongli delweddau clinigol wedi'i deall yn dda gan y proffesiwn, ac ail a oedd yn archwilio goblygiadau cyfreithiol a diogelwch perchen ar gyfarpar delweddu a'i weithredu (i gleifion, staff, eu hunain a'r cyhoedd yn ehangach). Caiff y rhain eu cyhoeddi yn ystod 2024.

## Adolygiadau, Tystlythyron a Chymeradwyaeth

Yn dilyn adroddiad gan y BBC ym mis Awst am glinigau gofal iechyd (gan gynnwys clinig ceiropractig) lle honnwyd eu bod wedi creu adolygiadau ffug ar Google, mae'r CCC wedi atgoffa'r holl geiropractyddion sy'n gofrestredig am eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag adolygiadau, tystlythyron a chymeradwyaeth gan amlygu arwyddocâd hysbysebu cywir a gwir, yn ogystal â chanlyniadau cyfreithiol posib o dalu am adolygiadau ffug.

## Côd Ymarfer

Yn 2023, cydweithion ni â chleifion a rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys unigolion sydd wedi cofrestru gyda ni, cymdeithasau proffesiynol a thystion arbenigol) ar adolygiad cwmpasu o'r Côd Ymarfer. Ym mis Rhagfyr, rhoddodd y Cyngor ei gymeradwyaeth am adolygiad llawn o'r Côd a fydd yn dechrau'n gynnar yn 2024. Bydd rhaglen o gyfathrebu a thrafod â'r proffesiwn a rhanddeiliaid eraill wrth i'r Côd Ymarfer newydd gael ei ddatblygu; cyn ymgynghoriad cyhoeddus am ddrafft terfynol y ddogfen.

Bydd y Côd Ymarfer newydd yn darged cyflawni allweddol ar gyfer 2024 a bydd hefyd yn dylanwadu ar gyfeiriad y CCC wrth i ni ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer 2025 a'r tu hwnt.

## Y Gymraeg

Drwy gydol y flwyddyn, bydd y CCC yn rhoi trefniadau ar waith i fodloni safonau newydd y Gymraeg o ddechrau mis Rhagfyr (pan ddaeth Safonau'r Gymraeg i rym i reoleiddwr gofal iechyd). Gwnaethom ni gydnabod pwysigrwydd gwneud newidiadau sy'n effeithio ar gleifion a cheiropractyddion sydd wedi cofrestru yng Nghymru.

Mae'r safonau'n mynd y tu hwnt i ddarparu ein gwasanaethau yn Gymraeg yn unig. Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i ystyried sut mae'r penderfyniadau a wneir gennym yn effeithio ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig. Yn 2024, bydd ceiropractyddion yn gallu cofrestru gyda'r CCC drwy'r Gymraeg, ac mae gan geiropractyddion a chleifion eisoes yr hawl i gymryd rhan mewn achosion cyfreithiol y Gymraeg yn ogystal â chyrchu'r wefan a dogfennau allweddol yn Gymraeg.

NOD 2

# Nod Strategol 2:

## Hyrwyddo ymarfer gorau ceiropractig parhaus, proffesiynoldeb a gwerth yn y system iechyd a gofal cymdeithasol

### Rhaglenni gradd ceiropracteg

Mae'r holl geiropractyddion sy'n graddio o ddarparwyr addysg yn y DU yn cwblhau rhaglen gradd Meistr Ceiropractig, gan astudio amrywiaeth eang o ddamcaniaeth a sgiliau ymarferol. Mae'r hyfforddiant hefyd yn darparu profiad clinigol ymarferol, gan alluogi myfyrwyr i ddod yn geiropractyddion medrus cyn graddio.

### Trosolwg o Addysg Geiropractig

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd y CCC ei ail adolygiad monitro blynyddol o addysg geiropractig. Mae'r cyhoeddiad yn galluogi mynediad cyhoeddus a phroffesiynol i amrywiaeth o wybodaeth a mewnwelediadau am raglenni ceiropractig, sut mae'r CCC yn sicrhau ansawdd addysg geiropractig yn y DU a materion allweddol a amlygir yn y rownd ddiweddaraf o adolygiadau monitro blynyddol.

### Rhoi'r fframwaith Safonau Addysg a Sicrhau Ansawdd ar waith

Ym mis Mawrth, lansiodd y CCC y Safonau Addysg newydd ynghyd â chyfres o ddogfennau a thempledi i fynd gyda nhw. Trafododd Ymwelwyr Addysg yn drylwyr â darparwyr addysg eu cynlluniau gweithredu a chydnabyddiaeth, cyn eu cyflwyniad i'r Pwyllgor Addysg i'w cymeradwyo ym mis Gorffennaf a Thachwedd 2023. Mae'r holl ddarparwyr yn addasu eu cymwysterau presennol neu gymwysterau newydd sydd wrthi'n cael eu datblygu i fodloni'r Safonau Addysg newydd erbyn mis Medi 2024.

Rhaglen MSc Ceiropractig (Cyn Cofrestru) Coleg Prifysgol AECC yw'r rhaglen gyntaf i alinio â'r Safonau Addysg newydd a bydd yn eu cyflwyno o fis Ionawr 2024. Datblygwyd canllawiau cefnogi i ddarparwyr addysg, gan gynnwys canllawiau Lleoliadau Clinigol a ddiweddarwyd, canllawiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys enghreifftiau o arfer gorau ac argymhellion y gellid eu defnyddio i gefnogi darparwyr i fodloni'r Safonau Addysg, a phroses newydd ar gyfer cydnabod rhaglenni lloeren yn y DU a thramor.

## Cynnal y gofrestr o geiropractyddion

Mae cynnal cofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd o geiropractyddion yn brif swyddogaeth y CCC. Cyn y gall rhywun alw ei hun yn geiropractydd, rhaid iddo gofrestru gyda'r CCC i ddangos ei fod wedi bodloni'r safonau addysg a phroffesiynol. Rhaid i geiropractyddion cofrestredig fodloni'r safonau a osodwyd gan Gôd y CCC ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol. Caiff y gofrestr ei diweddaru'n ddyddiol ar wefan y CCC.

Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd 3,752 o geiropractyddion yn gofrestredig gyda'r CCC, sef cynnydd o 4.8% ers 2022 (3,578).

Er bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr newydd yn tueddu i fod yn raddedigion o'r DU, mae'r CCC hefyd yn asesu ymgeiswyr sydd wedi graddio gyda chymwysterau ceiropractig o dramor.

**Tabl 1: Ceiropractyddion cofrestredig newydd drwy'r llwybr cofrestru[1]**

| Llwybr cofrestru | Newydd gofrestru |
|---|---|
| Llwybr 1 – rhaglen a gydnabyddir yn y DU | 263 |
| Llwybr 2 – Cymhwyso dramor | 31 |
| **Cyfanswm** | **294** |

**Tabl 2: Ceiropractyddion cofrestredig newydd o sefydliadau addysg – rhaglenni cydnabyddedig yn y DU[2]**

| Sefydliad Addysgol | Dyddiad cwblhau | Nifer y graddedigion | Nifer a gofrestrwyd |
|---|---|---|---|
| Coleg Ceiropracteg McTimoney (MCC)[3] | Hydref/ Rhagfyr 2023 | 44 | 10 |
| Coleg Prifysgol AECC | Gorffennaf/ Awst 2023 | 187 | 107 |
| Prifysgol Llundain South Bank | Gorffennaf/ Awst 2023 | 12 | 9 |
| Prifysgol De Cymru (USW) | Medi 2023 | 106 | 86 |
| **Cyfanswm** | | **349** | **212** |

## Prawf Cymhwysedd – ymgeiswyr a gymhwysodd dramor

Rhaid i geiropractyddion sy'n dymuno ymarfer yn y DU, sy'n ddeiliaid cymhwyster ceiropractig a gafwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, lwyddo ym Mhrawf Cymhwysedd (ToC) y CCC. Mae'r prawf yn sicrhau bod yr holl geiropractyddion sy'n ymarfer yn y DU yn bodloni'r safonau a osodir gan y CCC.

Yn 2013, gwnaeth 39 o ymgeiswyr sefyll y ToC gyda 24 yn llwyddo, 7 yn methu ac 8 yn gorfod darparu tystiolaeth bellach. Ni chafodd y rhain i gyd eu cofrestru'n syth (sy'n cael ei ddangos fel yr anghysondeb gyda Llwybr 2 yn Nhabl 1).

## Hyrwyddo proffesiynoldeb: Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rhaid i'r holl unigolion cofrestredig fodloni eu rhwymedigaethau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn flynyddol. Mae hyn yn cynnwys gwneud o leiaf 30 awr o weithgareddau dysgu, gyda go leiaf hanner yr amser hwnnw'n cael ei ymroi i brofiadau dysgu cydweithredol. At hynny, mae'r CCC yn ei gwneud hi'n ofynnol i unigolion cofrestredig ymgymryd ag ymarfer adfyfyriol, gan ganolbwyntio ar agwedd benodol ar eu gweithgareddau proffesiynol.

I gynorthwyo unigolion cofrestredig gyda'u hymarfer adfyfyriol, ym mis Mehefin cyhoeddon ni becyn cymorth (a luniwyd mewn cydweithrediad â Choleg Brenhinol y Ceiropractyddion) a oedd yn cynnwys ymagweddau ymarferol at elwa i'r eithaf o ddysgu, a chanllawiau ar gofnodi ymarfer adfyfyriol, gyda'r nod o wella ansawdd cyflwyniadau DPP.

Ar gyfer y flwyddyn DPP 2022/23, gofynnwyd i geiropractyddion cofrestredig i adfyfyrio'n benodol ar eu gwybodaeth a'u sgiliau sy'n gysylltiedig â chydsyniad. Bwriad hyn oedd asesu eu hangen am ddysgu ychwanegol yn y maes hwn. Yn ogystal, roedd gan y rhai hynny yn eu blwyddyn gychwynnol o ymarfer wedi graddio ofyniad i ymgymryd â dysgu â ffocws ynghylch Llywodraethu Clinigol. Mae hyn wedi'i ddogfennu'n briodol fel rhan o'r Crynodeb DPP blynyddol cynhwysfawr a'i wirio i sicrhau cydymffurfiaeth.

1. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys yr holl bobl sydd wedi cofrestru drwy lwybr rhaglen gydnabyddedig yn y DU. Graddedigion 2023 yn bennaf yw'r ffigur hwn, er nad yn unig. Mae rhai graddedigion yn cymryd amser i deithio, gweithio dramor neu gael seibiant cyn dechrau gweithio. Mae hyn yn esbonio'r anghysondeb rhwng cofrestriadau Llwybr 1 yn Nhabl 1 a nifer graddedigion 2023 yn Nhabl 2.

2. Nid yw'r holl raddedigion yn ymuno â'r gofrestr yn syth – mae nifer sylweddol o fyfyrwyr rhyngwladol yn dychwelyd adref cyn cwblhau eu cyrsiau (sy'n cael ei ddangos fel anghysondeb rhwng nifer y graddedigion yn 2023 a nifer y graddedigion yn 2023 sy'n ymuno â'r gofrestr yn Nhabl 2)

3. Mae myfyrwyr ar y rhaglen ran-amser yng Ngholeg Ceiropracteg McTimoney yn graddio ym mis Rhagfyr felly mae'r rhan fwyaf yn ymuno â'r gofrestr yn y mis Ionawr canlynol.

# Rhannu dysgu drwy gyfathrebu ac ymgysylltu

Mae'r CCC yn pwysleisio cyfathrebu â cheiropractyddion cofrestredig, rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel elfen bwysig o reoleiddio 'i fyny'r afon' (hynny yw, atal niwed cyn iddo ddigwydd) ac fel ffordd o ddeall anghenion a disgwyliadau ein rhanddeiliaid amrywiol (drwy ymgynghoriad ffurfiol a chraffu anffurfiol ar y gorwelion).

Cyflwynwyd cynllun cyfathrebu newydd i'r Cyngor ym mis Mehefin, a oedd yn ceisio cysylltu allbynnau cyfathrebu (gweithgareddau a gweithrediadau) â chanlyniadau (newidiadau i ymddygiad a mwy o ddylanwad ar gyfer y CCC). Ffocws penodol yw datblygu'r fframwaith dadansoddeg – sef y datblygu metrigau ystyrlon i fesur gweithrediadau a gymeradwy (megis sut mae pobl yn chwilio'r gofrestr, a'r hyn maent yn ei wneud pan fyddant yn dod o hyd i geiropractydd cofrestredig).

## 1. Cyfathrebu ag unigolion cofrestredig

Mae'r cylchlythyr misol (a anfonir ar ddydd Mercher cyntaf bob mis) yn boblogaidd – mae pob ceiropractydd cofrestredig yn agor cyfartaledd o 72% o'r cylchlythyron a anfonir, gydag uchafbwynt rheolaidd yn nhraffig y wefan ar ddydd Mercher cyntaf bob mis. Y cynnwys yn y cylchlythyr sydd fwyaf diddorol i ddarllenwyr oedd Canlyniadau Ffitrwydd i Ymarfer, y diweddaraf gan y Cofrestrydd a'r diweddaraf am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Mae'r cylchlythyr wedi'i ddatblygu drwy:

- Fwy o bersonoli unigol (yn enwedig unigolion cofrestredig newydd sy'n derbyn rhagor o fanylion am ofynion DPP).
- "Newyddion cryno" ar gyfer straeon byrrach.
- Adran newydd yn benodol i bartneriaid a rhanddeiliaid sy'n amlygu ein gweithgaredd yn ystod y mis diwethaf.
- Senario DPP (a gynhelir ar LinkedIn) bob mis i annog trafodaeth.

## 2. Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gan ein tudalen LinkedIn 928 o ddilynwyr - sy'n 290 yn fwy, ac mae 640 o'r dilynwyr hyn yn y diwydiannau perthnasol (ceiropractyddion, gofal iechyd ehangach, addysg, neu wasanaethau cyfreithiol). Roedd cyfradd ymgysylltu (sef pobl sy'n gweld postiad yn ei hoffi, ei rannu neu roi sylw arno) o 5% gan ein postiadau - sef cyfanswm o 2,192 o achosion o ymgysylltu mewn rhyw ffordd (clicio URL yn bennaf). Caiff hyn ei ystyried i fod yn uchel yn unol â meincnodau'r diwydiant. Mae'r cynnydd mewn clicio i'r wefan hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ystadegau'r wefan, a LinkedIn yw ffynhonnell mwy o sesiynau gwefan nag X (Twitter gynt) (909 yn erbyn 762).

## 3. Gwefan

Y gofrestr yw'r rhan o'r wefan a wnaeth dderbyn y nifer fwyaf o ymwelwyr yn 2023, gyda mwy na 120,000 o chwiliadau. Roedd hyn yn defnyddio'r gofrestr i wirio cofrestriad unigolion yn bennaf. Roedd 35% (42,000) yn cynnwys rhif cofrestriad ac roedd 65% (78,000) yn cynnwys enw (roedd rhai yn cynnwys y ddau). Mae'r gofrestr hefyd yn cael e defnyddio fel cyfeiriadur, gyda mwy na 10,000 o gliciadau i wefannau, rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost yn uniongyrchol o gofnodion i'r gofrestr.

Mae'r wefan ar gael yn gyfan gwbl yn Gymraeg erbyn hyn, fel rhan o'n hymrwymiad i'r Gymraeg.

## 4. Arolwg Pwls

Nod yr Arolwg Pwls, a lansiwyd ym mis Tachwedd, yw datblygu mesur parhaus o forâl a'r heriau sydd yn y proffesiwn, i ddeall yr ymddiriedaeth sydd gan y proffesiwn yn rôl y CCC, a gallu sylwi'n brydlon ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt (drwy sylwadau). Mae'n cynnwys holiadur byr a anfonwyd i tua 10% o'r sylfaen o aelodau cofrestredig bob mis ar frig y cylchlythyr misol.

Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr, derbynion ni 69 o ymatebion, gan gynnwys 34 o sylwadau, a oedd yn dangos ymddiriedaeth gref yn y CCC i gymryd camau os na fydd ceiropractydd yn bodloni'r safonau disgwyliedig (sgôr o 4.42 allan o 5), ond llai o hyder ei bod hi'n hawdd mynd at y CCC a'i bod hi'n hawdd cysylltu â'r Cyngor (3.42 allan o 5).

***"Mae'r CCC wedi bod yn beth da i'r proffesiwn. Mewn byd sy'n newid o hyd, yn fy marn i mae'r CCC yn ein darparu â chanllawiau da ac mae angen i bawb weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y proffesiwn yn parhau i weithio er budd ein cleifion."***

**Ceiropractydd dienw yn ymateb i'r Arolwg Pwls**

Caiff yr holl sylwadau o'r arolwg eu darllen a'u categoreiddio. Caiff yr wybodaeth ei defnyddio i ddylanwadu'r meddylfryd am y Côd newydd a'r Cynllun Busnes newydd yn 2024.

## 5. Cydweithio

Ym mis Mai, roedd yn bleser gan y CCC groesawu cydweithwyr o Fwrdd Ceiropracteg Seland Newydd i gymharu a chyferbynnu'r ymagweddau at reoleiddio ceiropracteg yn ein gwledydd perthnasol.

Mae'r CCC yn mynychu fforymau rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar bynciau sy'n cynnwys:

- Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chynnwys y Cyhoedd
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Addysg
- Polisi ac Ymchwil
- Ffitrwydd i Ymarfer
- Fforwm rheoleiddwyr iechyd a gofal – a gydlynir gan y Comisiwn Ansawdd Gofal

Rydym hefyd yn aelodau-sefydlu'r Sefydliad Rheoleiddio (IOR) a mynychon ni sawl digwyddiad a gynhaliwyd gan yr IOR drwy gydol 2023, gan gynnwys y gynhadledd flynyddol a nifer o gyfarfodydd diddordeb arbennig.

Ym mis Tachwedd, etholwyd Nick Jones fel cadeirydd Prif Weithredwyr y Cyrff Rheoleiddio, sy'n cwrdd yn fisol i drafod materion presennol sy'n wynebu rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.

Rydym yn parhau i fod yn aelodau rhagweithiol ac eistedd ar fwrdd y Gymdeithas Rheoleiddio Ceiropracteg Ryngwladol. Yn 2023, cynhaliodd y Gymdeithas drafodaethau am ymarfer dros dro, gan fynd i'r afael â symudedd ymarferwyr ledled y byd, gan fod gofynion yn amrywio mewn awdurdodaethau gwahanol. Mae symudedd ymarferwyr yn cynyddu, a chadarnhaodd arolwg myfyrwyr diweddar fod y tueddiad hwn yn debygol o barhau.

NOD 3

# Nod Strategol 3:

## Rheoleiddio'n effeithiol, yn effeithlon, yn arloesol ac yn gynhwysol

### Ymchwilio i bryderon a Ffitrwydd i Ymarfer

**Crynodeb: Cwynion am Geiropractyddion**

**66**
Cafwyd 66 o gwynion, yn erbyn cyfanswm o 63 i geiropractyddion

**Cynnydd o 24.5%**
mewn cwynion a dderbyniwyd am ffitrwydd ceiropractyddion i ymarfer o'i gymharu â 2022



**70%**
Derbyniwyd (46) o gwynion gan gleifion neu berthnasau cleifion



**Rhan fwyaf**
o gwynion yn ymwneud â gofal ac ymddygiad clinigol

**19%**
o achosion y daeth Pwyllgor Ymchwilio'r CCC i gasgliad amdanynt wedi'u cyfeirio at wrandawiad Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol



| Ffynhonnell/nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y CCC | |
|---|---|
| Claf/perthynas i | 46 |
| Ceiropractydd arall/clinig sy'n weithle | 6 |
| Sefydliad yn y Sector Cyhoeddus (e.e. yr Heddlu) | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd/sefydliad preifat | 7 |
| Cofrestrydd | 0 |
| Hunanatgyfeirio | 2 |
| Dienw | 2 |
| Person a atgyfeiriodd yn anhysbys | 0 |
| Ymchwil y CCC | 0 |
| Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol Arall | 2 |
| **Cyfanswm** | **66** |

Mae'r CCC yn amddiffyn y cyhoedd drwy ymchwilio i gwynion a dderbynnir am geiropractyddion. Mae'r Pwyllgor Ymchwilio yn asesu'r dystiolaeth ym mhob cwyn i weld a oes achos i'w ateb. Os penderfynir bod achos i'w ateb, caiff y gŵyn ei hatgyfeirio at wrandawiad gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, sy'n adolygu ymddygiad proffesiynol, cymhwysedd ac euogfarnau troseddol, neu'r Pwyllgor Iechyd, sy'n ystyried ffitrwydd i ymarfer ceiropractydd yn dilyn cyflwr iechyd.

Roedd nifer y cwynion a dderbyniwyd yn 2022 yn isel, ac rydym yn credu bod hyn o ganlyniad i lai o driniaeth oherwydd y pandemig. Yn 2023, derbyniodd y CCC 66 cwyn am geiropractyddion, sef cynnydd o 24.5% o'i gymharu â 53 o gwynion a dderbyniwyd yn 2022. Dros y pum mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd mae'r CCC wedi derbyn 74 o gwynion bob blwyddyn. Cafodd y rhan fwyaf o gwynion eu derbyn gan gleifion neu eu perthnasau.

Roedd y rhan fwyaf o gwynion yn gysylltiedig ag ymddygiad a gofal clinigol.

## Achosion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

| Ffynhonnell/nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y CCC | | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr achosion y daeth y Pwyllgor Ymchwilio i gasgliad amdanynt | | 82 | 60 | 52 |
| O'r rhai hynny: | Dim achos i'w ateb | 73 | 48 | 42 |
| | Wedi'i atgyfeirio at y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol | 9 | 12 | 10 |
| Nifer yr achosion y daeth y Pwyllgor Ymchwilio i gasgliad amdanynt | | 11 | 10 | 11 |

## Amser mewn wythnosau o dderbyn y gŵyn gychwynnol i benderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio

| Amser mewn wythnosau tan y penderfyniad | | | |
|---|---|---|---|
| | 2021 | 2022 | 2023 |
| Canolrif | 36 | 48 | 58 |
| Achos hiraf | 123 | 163 | 111 |
| Achos byrraf | 8 | 11 | 9 |

Yn 2023, daeth y Pwyllgor Ymchwilio i gasgliad a chau 83% o achosion heb achos i'w ateb. Cafodd 10 o achosion eu hatgyfeirio at y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol. Penderfynodd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ar 11 o achosion yn 2023, gan ddod o hyd i ymddygiad proffesiynol annerbyniol mewn pump ohonynt. Nid atgyfeiriwyd unrhyw achosion at y Pwyllgor Iechyd.

### Defnyddio teitl ceiropractydd

Mae'r teitlau ceiropractydd, ymarferydd ceiropracteg, ceiroymarferydd, ffisegydd ceiropractig, neu unrhyw fath o geirpractydd wedi'i hamddiffyn gan y gyfraith. Os bydd person nad yw ar Gofrestr y CCC ond mae'n disgrifio ei hun fel hynny, boed yn amlwg neu drwy awgrym, bydd yn mynd yn groes i adran 32(1) o'r Ddeddf Ceiropractyddion (1994).

Mae amddiffyn teitlau yn ddyletswydd bwysig i'r CCC oherwydd ei bod hi'n helpu'r cyhoedd i gydnabod pwy sy'n geiropractydd proffesiynol cofrestredig. Yn dilyn adolygiad, gall y CCC gymryd sawl cam gweithredu, gan gynnwys:

- Cyhoeddi cyngor i wneud newidiadau i wefannau, cyhoeddiadau a deunyddiau marchnata perthnasol eraill.
- Anfon llythyr ymatal a chyfarwyddo asiantiaid i gael rhagor o wybodaeth.
- Argymell y caiff yr achos ei gau.

Pan fydd llythyron wedi'u hanfon, bydd y CCC yn gwirio bod y camau priodol wedi'u cymryd. Mewn achosion lle mae'r toriad neu'r toriad posib o adran 32 yn bryder difrifol iawn, bydd y Cofrestrydd yn ystyried a ddylid erlyn.

Yn 2023, gwnaeth y CCC gau 48 o gwynion, gan gymryd camau boddhaol mewn ymateb i'r honiad. Gwnaeth 16 cwyn barhau i 2024.

### Cyflwyno Cynghorwyr Clinigol

Daeth adolygiad cwmpasu yn 2022 i'r casgliad y byddai cyflwyno cynghorwyr clinigol yn helpu gydag ymchwiliadau ffitrwydd i ymarfer ac yn lleihau'r costau cysylltiedig.


Yn 2023, terfynodd y CCC y model y byddai cynghorwyr clinigol yn gweithio yn unol ag ef yn ogystal â recriwtio a phenodi cynghorwyr i ddarparu mewnbwn clinigol i ymchwiliadau ffitrwydd i ymarfer. Aeth y model newydd yn fyw ym mis Awst 2023, gydag arbedion effeithiolrwydd i'w gweld o 2024.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant

Ym mis Rhagfyr 2021, cymeradwyodd Cyngor y CCC Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) newydd 15 pwynt. Nod y cynllun tair blynedd yw meithrin newid diwylliant ac ymddygiad yn fewnol ac yn allanol.

| Pwynt | Disgrifiad | Sylw |
|---|---|---|
| 01 | **Gweithgor CAC** | Mae aelodau'r gweithgor wedi cwrdd teirgwaith yn 2-23, gan gynnig cymorth wrth ddatblygu arolygon CAC ac fel rhan o'r prosiect Safonau Addysg. |
| 02 | **Adolygu swyddogaethau a phrosesau'r CCC** | Defnyddiwyd canfyddiadau adolygiad CAC 2022 o'r broses FTP i lywio'r broses o recriwtio aelodau newydd o'r Pwyllgor Ymchwilio ym mis Ionawr 2023. |
| 03 | **Adolygu a dosbarthu canllawiau CAC y CCC** | Cyhoeddwyd y pecyn cymorth CAC i geiropractyddion cofrestredig yn 2022, a chafodd ei ddosbarthu ymhellach drwy gydol 2023.<br>Yn 2023, crëwyd adnodd gennym sy'n nodi ac yn rhannu arfer gorau i gefnogi sefydliadau addysg geiropractig i integreiddio disgwyliadau CAC mewn safonau addysg newydd. |
| 04 | **Creu polisi cynhwysiant corfforaethol** | Mae'r polisi cynhwysiant corfforaethol wedi cael ei ddatblygu, ochr yn ochr â pholisi pontio yn y gwaith, i gefnogi cydweithwyr CCC. |
| 05 | **Diffinio'r ymgynghoriad CAC** | Ym mis Gorffennaf, anfonwyd arolwg i archwilio dealltwriaeth CAC ym maes ceiropractig at yr holl geiropractyddion cofrestredig (562 o ymatebwyr - 15%) a thua 3,000 o gleifion (510 o gleifion cymwys a ymatebodd - 17%). Bydd hyn yn llywio ymchwil yn y dyfodol gyda chleifion ceiropractig a'r cyhoedd (Pwynt gweithredu 13). |
| 06 | **Rhwydwaith cymorth cydweithredol i'r CAC** | Mae'r CCC bellach yn aelod gweithredol o fforwm CAC y rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r CCC hefyd yn cefnogi'r proffesiwn i greu ei rwydwaith cefnogi CAC ei hun. |
| 07 | **Adolygiad o ganllawiau brand y CCC** | Cwblhawyd adolygiad ac fe'u rhoddwyd ar waith i wella hygyrchedd ein dogfennau (gan gynnwys cymarebau cyferbyniad a chanllawiau am iaith hawdd ei deall). |
| 08 | **Polisi casglu data** | Cwblhawyd y polisi casglu data yn 2022 fel rhan o Ddatganiad Polisi CAC y CCC |
| 09 | **Cynllun cyfathrebu** | Datblygwyd y cynllun cyfathrebu sy'n cefnogi CAC yn 2022. Yn benodol, ers mis Hydref 2023, rydym wedi cynnwys senario y gellid dod ar ei draws wrth ymarfer ym mhob cylchlythyr, ac ar LinkedIn, fel rhan o'r flwyddyn DPP CAC. |

| | | |
|---|---|---|
| 10 | **Adolygiad gweithredol nodweddion gwarchodedig** | Seibiwyd adolygiad gweithredol o hygyrchedd yn 2023 gan aros am symud posib i swyddfeydd a rennir a threfniadau gweithio hybrid parhaus. Caiff y cam gweithredu hwn ei ailystyried yn 2024. |
| 11 | **Hyfforddiant CAC gorfodol** | Mae staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar ragfarn ddiarwybod, a chyflwynwyd sesiynau hyfforddi gyda'r Cyngor, y Pwyllgor PCC a'r Pwyllgor IC fel rhan o'u diwrnodau hyfforddi. |
| 12 | **Ffocws Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar CAC** | Mae'r cwestiwn myfyrio gorfodol 2023-24 yn gofyn i bobl gofrestredig fyfyrio ar eu cyfrifoldebau CAC wrth ymarfer ac am eu hyder wrth fynd i'r afael ag anghenion annisgwyl ymhlith eu cleifion. |
| 13 | **Ymchwil i gleifion/y cyhoedd** | Bydd canfyddiadau'r "ymchwil diffinio CAC" (cam gweithredu 5) yn llywio datblygiad ymchwil bellach yn 2024 a'r tu hwnt. |
| 14 | **Hyrwyddwyr yn y proffesiwn** | Mae'r Gweithgor CAC wedi cynnal trafodaethau cychwynnol am hyrwyddwyr yn y proffesiwn yn 2023, gan ystyried sut y byddai'r hyrwyddwyr hyn yn cael eu nodi a beth fyddai eu rôl. Caiff gwaith pellach ei wneud yn 2024. |
| 15 | **Traciwr perfformiad** | Mae'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ('CCC' yn adrodd yn rheolaidd am ei gynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC), yn ogystal â data amrywiaeth cyfunol ynghylch rhanddeiliaid (pobl sy'n cofrestru; staff; ymgeiswyr i swyddi gwag; aelodau'r cyngor a phwyllgorau; a phobl sy'n cwyno). |



NOD 4

# Nod Strategol 4:

## Gwella natur a ffurf rheoleiddio'r proffesiwn yn y dyfodol

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y llywodraeth ei dadansoddiad o ymatebion i'r cynigion 2021 ar ddiwygio rheoleiddio proffesiynol. Croesawodd y CCC y cyhoeddiad ac ymatebodd i ymgynghoriad pellach a oedd yn canolbwyntio ar ddod i broffesiynau newydd dan reoleiddio'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Bwriad y llywodraeth oedd y byddai "deddfwriaeth ddilynol yn darparu templed ar gyfer diwygiadau deddfwriaethol rheoleiddio dilynol."

Ymatebon ni ar sut y byddai'r newidiadau'n gweithio pe baent yn cael eu cymhwyso i'r CCC. Mae ymagweddau at reoleiddio gofal iechyd wedi newid ers i Ddeddf Ceiropractyddion 1994 ddod i rym a chroesawon ni'r cynigion. Rydym wedi bod yn galw am newidiadau i'n hen ddeddfwriaeth a rheolau ers blynyddoedd lawer. Rydym hefyd yn gwybod y bydd y system gofal iechyd yn parhau i ddatblygu, gan gynnwys mewn ffyrdd na ellir eu rhagweld.

Croesawon ni'r ymagwedd gyffredinol: amnewid deddfwriaeth fanwl ac argymhellol gyda rheolau sy'n galluogi rheoleiddwyr i fod yn hyblyg ac addasu eu rheoli wrth i'r gofynion newid. Dywedon ni y gallant gefnogi rheoleiddio mwy ystwyth, ymatebol a chymesur yn y blynyddoedd i ddod i amddiffyn pobl yn well a hyrwyddo gofal diogel o safon.

Ond hefyd, amlygwyd saith maes allweddol gennym lle na wnaeth y cynigion fynd i'r afael â'n pryderon na bodloni'r amcanion polisi a sefydlwyd i ddechrau.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyflwynwyd offeryn statudol i Senedd y DU a oedd yn ffurfio templed ar gyfer diwygio rheoleiddio'r holl broffesiynau gofal iechyd a reoleiddir – gan geiropractyddion. Aethpwyd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd gennym:

- Mae cynnwys proses asesu gychwynnol mewn ffordd benodol, sy'n cefnogi ein gallu i ymdrin â phryderon mewn ffordd gymesur, yn gam arwyddocaol ymlaen.
- Mae'r broses asesu gychwynnol honno, mewn cyfuniad â'r cyfle i geiropractydd cofrestredig gytuno â chanfyddiadau asesiad (sef 'canlyniad a dderbynnir') yn fuddiol – gan leihau natur wrthwynebus gwrandawiadau ffitrwydd i ymarfer a chyflymu'r broses i geiropractyddion cofrestredig a thystion.
- Roedd yn bleser gennym weld DPP, ac asesu rheolaidd (i sicrhau'r safonau uchaf o ddatblygiad proffesiynol) yn cael mwy o amlygrwydd, gan ddarparu mwy o hyblygrwydd o ran gofynion.
- Byddai'r proffesiwn yn croesawu'r potensial i ni gael mwy o hyblygrwydd o ran ffioedd – gan ein galluogi ni i ystyried ffioedd pro rata, ymysg pethau eraill, am y tro cyntaf.

Mae'r CCC wedi bod yn gofyn am ddiwygio rheoleiddio ers amser hir, ac nid yw'r llywodraeth wedi mynegi eto pryd y gallai'r newidiadau hynny fod yn gymwys i reoleiddio ceiropractyddion. Bydd y fframwaith ar gyfer rheoleiddwyr mwy, megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), yn cymryd blaenoriaeth, a bydd ymgynghoriad pellach gyda phob rheoleiddwr yn cael ei gynnal cyn y caiff deddfwriaeth newydd ei chyflwyno.

Rydym ni'n dweud bod yn rhaid bod cynnydd parhaus; cyhoeddi yn dilyn llawer o flynyddoedd o gynnydd araf. Heb unrhyw amserlen ar gyfer diwygio deddfwriaeth y CCC, mae'r gwendidau yn y system bresennol yn parhau.

# Sicrwydd, rheoli risg a rheoli gwybodaeth

## Sicrwydd

**Adolygiad perfformiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)**

Gan ystyried perfformiad yn ystod 2022 a 2023, croesawon ni ganfyddiadau'r adolygiad gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, sydd â dyletswydd statudol i adrodd i Senedd y DU ar berfformiad deg rheoleiddwr iechyd a gofal cymdeithasol y DU.

Gwnaeth y CCC fodloni pob un o 18 Safon Rheoleiddio Da'r Awdurdod Safonau Proffesiynol – y tro cyntaf ers pum mlynedd i'r holl feincnodau gael eu bodloni.

Yn yr adroddiad, amlygodd y PSA sut y gwnaeth y CCC gynnwys y proffesiwn ceiropractig wrth ddatblygu Safonau Addysg newydd a'u rhoi ar waith, gyda mwy o bwyslais ar:

- gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion
- cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant
- gweithio cydweithredol ac integredig gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill

Yn ogystal, cydnabu'r PSA ymrwymiad y CCC i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC), gan ddod i'r casgliad canlynol: "Mae'n gadarnhaol gweld y cynnydd mae wedi'i wneud wrth roi ei gynllun gweithredu ar waith hyd yma". Yn benodol, nododd y PSA fod yr adolygiad CAC thematig o achosion ffitrwydd i ymarfer a gaewyd gan y Pwyllgor Ymchwilio (IC) – a'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael â rhai o ganfyddiadau'r adolygiadau, gan gynnwys defnyddio ymgyrch recriwtio diweddar i amrywio cronfa o aelodau'r IC ymhellach.

## Rheoli risg

Gweithiodd y Cyngor a'r weithrediaeth i ystyried a deall y risgiau mae'r CCC yn eu hwynebu'n weithredol, ac yn strategol, yn well - mae hyn yn bwysig gan fod rhaglen sylweddol o newid a datblygu ar waith a rhaid cynnal diogelwch ac amddiffyniad y cyhoedd. Cytunodd y Cyngor ar drefniadau ar gyfer rheoli risg, a oedd yn cynnwys:

- Adolygu a chymeradwyo'r gofrestr risg strategol yn ystod y flwyddyn. Nododd y Cyngor fod y cofrestri risg strategol a gweithredol yn darparu'r sicrwydd digonol bod lefelau dymunol o liniaru ar waith.
- Asesu a chymeradwyo'r datganiad risg blynyddol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Cadarnhaodd y datganiad fod y Pwyllgor yn fodlon bod polisi ac arferion rheoli risg y CCC yn cael eu rheoli'n effeithiol; eu bod nhw wedi cryfhau yn ystod y flwyddyn dan adolygiad; a'u bod yn cyflawni'r canlyniadau lliniaru risg a fwriadwyd.
- Adolygu a diweddaru cynlluniau busnes wrth gefn gweithredol a chorfforaethol, nodi posibilrwydd o risg allweddol a strategaethau lliniaru.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r gofrestr risgiau ym mhob un o'i gyfarfodydd. Cynhaliodd y Cyngor ei adolygiad o'r gofrestr risg ym mis Medi a mis Rhagfyr 2023. Ymrwymodd y Cyngor i adolygu'r gofrestru dwywaith y flwyddyn yn y dyfodol, ym mis Mehefin a mis Rhagfyr. Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gael ar dudalen 32.

## Risgiau strategol a pharodrwydd i dderbyn risg

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb am osod a monitro parodrwydd y CCC i dderbyn risg Nid yw'r CCC yn barod i dderbyn methiant i amddiffyn y cyhoedd a chleifion oherwydd prosesau aneffeithiol neu ultra-vires. Mewn ymgais i gyflawni ei amcanion strategol, bydd y CCC dim ond yn goddef y posibilrwydd o risg barhaus isel i ganolog wrth gyflwyno ei dargedau perfformiad gweithredol, gan gynnwys safonau uchel llywodraethu corfforaethol a gonestrwydd ariannol.

Nododd y Cyngor chwe risg strategol y mae'r CCC yn agored iddynt yn ystod y flwyddyn. Mae pob un o'r risgiau a'i sgôr parodrwydd i dderbyn risg berthnasol wedi'u hamlinellu yn y tabl isod.

| SR1 | SR2 | SR 3 | SR 4 | SR 5 | SR 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| Methu ag amddiffyn y cyhoedd | Cynaliadwyedd ariannol | Dyfodol y proffesiwn | Capasiti sefydliadol | Seiberddiogelwch | Llywodraethu |
| Isel | Isel | Canolog | Canolog | Isel | Canolog |

Mae'r Cyngor wedi nodi bod gan dair o'r chwe risg strategol sgoriau parodrwydd "isel" ac mae gan y tair sy'n weddill sgoriau "canolog".

## Llywodraethu Gwybodaeth

I sicrhau safonau uchel o lywodraethu gwybodaeth a diogelwch data, rydym yn ymchwilio i'r holl ddigwyddiadau tor data ac yn adrodd amdanynt wrth y swyddog diogelu data. Wrth asesu pob achos o dorri data, mae'r Tîm Gweithredol yn ystyried yn ofalus a yw'r tor data wedi effeithio mewn ffordd andwyol ar hawliau a rhyddid y person/sefydliad dan sylw gan benderfynu a oes angen adrodd amdano wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Darparwyd cyrsiau hyfforddi, gloywi a chanllawiau ar ymdrin â digwyddiadau tor data a'u lleihau i'r holl staff yn ystod y flwyddyn ar ddiogelwch gwybodaeth, seiberddiogelwch, a gwall dynol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2023, roedd yna:

- Dau dor data a adolygwyd, heb fod angen adrodd am ddim un ohonynt wrth y Comisiynydd Gwybodaeth (2022: tri)
- Pum cais gwrthrych am wybodaeth data (DSAs) (2022: tri)
- Naw cais rhyddid gwybodaeth (FOI) (2022: pedwar)

Rhoddwyd ymatebion i geisiadau am wybodaeth o dan ddarpariaethau FOI a DSA o fewn yr amserlenni statudol.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod bod llywodraethu corfforaethol cryf yn allweddol i gyflawni ein cynllun busnes blynyddol a strategol, a chyflawni a chynnal dyfodol ariannol cynaliadwy. Y Cyngor yw craidd ein strwythur llywodraethu. Mae wedi'i gefnogi gan chwe phwyllgor statudol a thri sy'n anstatudol.

Y pwyllgorau statudol yw'r Pwyllgor Addysg, y Pwyllgor Ymchwilio, y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, y Pwyllgor Iechyd, y Tribiwnlys Apeliadau Iechyd, a'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru. Mae'r Cyngor yn penodi aelodau'r pwyllgorau statudol.

Y tri phwyllgor anstatudol yn y Cyngor yw'r Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC), y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol (RemHR) a'r Pwyllgor Ailbenodi (AC). Penodir i bwyllgorau anstatudol yn unol â chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny.

Penodir y Cadeirydd ac aelodau'r ARC, gan gynnwys yr aelod annibynnol, gan Gadeirydd Cyngor y CCC a chaiff penodiadau o'r fath eu hadrodd wrth Gadeirydd y Cyngor.

Penodir aelodau a Chadeirydd y Pwyllgor RemHR ar argymhelliad Cadeirydd y Cyngor. Mae Cadeirydd y Cyngor yn aelod ex-officio o'r Pwyllgor ond ni chaiff ei benodi fel Cadeirydd.

Cadeirydd y Cyngor sy'n penderfynu ar aelodau'r Pwyllgor Ailbenodi bob tro, ac fel arfer mae'n cynnwys dau aelod presennol o'r Cyngor nad ydynt yn ceisio ailbenodi ar yr adeg honno, ynghyd ag un aelod annibynnol.

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod y CCC yn cyflawni ei swyddogaethau craidd ac yn pennu strategaeth hirdymor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, fel a ddiffiniwyd yn y Ddeddf a deddfwriaeth arall. Mae'r broses cynllunio busnes flynyddol yn nodi gweithgareddau ac adnoddau mae eu hangen i wireddu nodau strategol y Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y CCC yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol o ran y defnydd o'i gronfeydd. Rhaid i Aelodau'r Cyngor sicrhau bod eu holl benderfyniadau a gweithredoedd yn diogelu enw da'r CCC a chynnal hyder y cyhoedd wrth reoleiddio'r proffesiwn ceiropractig. I gyflawni'r lefelau uchaf o lywodraethu, mae'r Cyngor yn cymhwyso Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan ac Egwyddorion Côd Llywodraethu Corfforaethol y DU i ymddygiad ei gyfarfodydd llywodraethu a gweithredoedd y sefydliad.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod a Mary Chapman, y Cadeirydd, sy'n ei arwain. Caiff y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd eu penodi gan y Cyngor ac maent yn gyfrifol am gyflawni'r strategaeth a'r cynllun busnes. Mae'r Cyfrin Gyngor yn cymeradwyo penodiad aelodau'r Cyngor.

Gwnaeth y Cyngor gwrdd yn ffurfiol pedair gwaith ym mis Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr 2023. Cafodd cyfarfodydd anffurfiol ychwanegol eu cynnull fel yr oedd yn angenrheidiol.

**Aelodaeth y Cyngor ar gyfer 2023**

| Aelod y Cyngor | Telerau Penodiad | | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Mary Chapman (Cadeirydd) | 01/08/2017 | 31/12/2023 | 4 o 4 |
| Jennifer Adams | 01/09/2021 | 31/08/2024 | 4 o 4 |
| Elisabeth Angier | 01/09/2021 | 31/08/2024 | 4 o 4 |
| Fergus Devitt | 01/02/2020 | 31/01/2028 | 3 o 4 |
| Steven Gould | 01/06/2016 | 31/05/2024 | 3 o 4 |
| Annie Newsam | 01/09/2020 | 31/08/2024 | 4 o 4 |
| Sharon Oliver (tan fis Gorffennaf 2023) | 01/08/2017 | 31/07/2023 | 2 o 2 |
| Ralph Pottie | 01/08/2017 | 31/07/2025 | 4 o 4 |
| Keith Richards | 01/08/2017 | 31/07/2025 | 4 o 4 |
| Carl Stychin (tan fis Ionawr 2023) | 31/01/2018 | 30/01/2023 | Dd/B |
| Keith Walker | 01/09/2020 | 31/08/2024 | 4 o 4 |
| Catherine Kelly (o fis Mawrth 2023) | 01/03/2023 | 28/02/2027 | 4 o 4 |
| Aaron Porter (o fis Awst 2023) | 01/08/2023 | 31/07/2027 | 2 o 2 |
| Samuel Guillemard (o fis Mehefin 2023) | 01/06/2023 | 31/05/2027 | 3 o 3 |

Mae bywgraffiadau o aelodau presennol y Cyngor ar gael ar wefan y CCC.

# Pwyllgorau Statudol

## Pwyllgor Addysg

Prif rôl y Pwyllgor Addysg yw hyrwyddo safonau uchaf addysg a hyfforddiant ym maes ceiropracteg a chadw'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer yr addysg honno a'r hyfforddiant hwnnw dan adolygiad.

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo neu'n cydnabod cyrsiau gradd ceiropracteg yn y DU ac yn cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant, DPP, arholiadau neu brofion cymhwysedd.

Gwnaeth y Pwyllgor gwrdd teirgwaith yn 2023, gan adrodd ym mhob cyfarfod o'r Cyngor.

**Aelodau'r Pwyllgor Addysg**

| Aelod o'r Cyngor | Manylion yr aelod | Dyddiadau Aelodaeth | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Sharon Oliver | Aelod lleyg y Cyngor a Chadeirydd | Tan 31/07/23 | 2 o 2 |
| Catherine Kelly | Aelod lleyg o'r Cyngor | O 01/03/23 | 3 o 3 |
| | ac fel Cadeirydd | o 01/08/23 | |
| Clare Allen | Aelod lleyg allanol | Gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Mike Barber | Aelod cofrestredig allanol | Tan 01/06/23 | 1 o 1 |
| Philip Dewhurst | Aelod cofrestredig allanol | Gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Sam Guillemard | Aelod cofrestredig o'r Cyngor | O 01/07/23 | 2 o 2 |
| Daniel Moore | Aelod cofrestredig allanol | O 01/07/23 | 2 o 2 |
| Aaron Porter | Aelod lleyg o'r Cyngor | Gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Ralph Pottie | Aelod cofrestredig o'r Cyngor | Gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Keith Walker | Aelod cofrestredig o'r Cyngor | Gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Carol Ward | Aelod lleyg allanol | Gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Jessican Watts | Aelod lleyg allanol | O 01/08/23 | 1 o 1 |

## Pwyllgor Apeliadau

Mae'r Pwyllgor Apeliadau'n penderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan y Cofrestrydd. Gan na chyflwynwyd apeliadau yn ystod 2023, ni chafodd y Pwyllgor ei gynnull.

## Y Pwyllgor Ymchwilio

Rôl statudol y Pwyllgor Ymchwilio (IC) yw penderfynu a oes achos i'w ateb ynghylch unrhyw gŵyn a wneir i'r CCC am geiropractydd cofrestredig. Os bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu bod achos i'w ateb, bydd yn atgyfeirio'r gŵyn at wrandawiad ffurfiol gerbron baill llai'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu'r Pwyllgor Iechyd (gan ddibynnu ar natur y gŵyn).

Os bydd ceiropractydd yn peri peryg i'r cyhoedd, gall y Pwyllgor Ymchwilio osod Gorchymyn Gwahardd Interim. Mae'r Gorchymyn hwn yn atal y ceiropractydd rhag ymarfer am ddeufis tra bydd ymchwiliad i'r gŵyn.

Bydd o leiaf dau aelod lleyg (un sy'n eistedd fel cadeirydd y panel) ac un aelod cofrestredig yn bresennol ym mhob cyfarfod Pwyllgor Ymchwilio. Mae asesydd cyfreithiol hefyd yn mynychu pob cyfarfod i ddarparu cyngor ar bwyntiau o'r gyfraith a chynorthwyo wrth ddrafftio honiadau i'w hystyried gan y Pwyllgorau Ymddygiad Proffesiynol neu Iechyd. Cynhelir yr holl gyfarfodydd yn breifat.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodai o'r Pwyllgor Ymchwilio yn dilyn proses recriwtio neu gyferthol. Yn 2023, penodwyd pum aelod lleyg o'r Pwyllgor Ymchwilio fel cadeiryddion y panel. Mae'r Weithrediaeth yn cefnogi'r rôl Cadeirydd yn gyffredinol wrth ymgymryd ag agweddau gweithredol ar recriwtio, arfarnu a hyfforddi aelodau o'r Pwyllgor.

Cwblhaodd aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio eu harfarniadau yn 2023, gan fodloni'r safon ofynnol i gyflawni eu rolau.

**Aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio**

| Cadeiryddion | Aelodau Cofrestredig | Aelodau Lleyg |
|---|---|---|
| Cadeirydd Cyffredinol: | Paul Allison* | Fahmina Begum* |
| Jill Crawford | Michael Barber | Eileen Carr |
| Cadeiryddion Lleyg: | Laura Beaumont-Perry* | Rebecca Channon |
| Eileen Carr | Faye Deane* | Jill Crawford |
| Rama Krishnan* | Alison Eaves-Lai* | Julia Cutforth* |
| Andrew Macnamara* | Robert Fish | Fran Gillon |
| Asmita Naik | Sara Glithro | Scott Handley* |
| Lubna Shuja | Daniel Heritage | Rama Krishnan* |
| Nilla Varsani | Christopher Julian* | Andrew Macnamara* |
| Helen Wagner* | Suzanne Le Voi* | Emma Moir* |
| Tehniat Watson* | Daniel Ruby | Elizabeth Murphy* |
| Peter Wrench* | Mark Stamper-Webster* | Asmita Naik |
| | Fay Waiting* | Gillian Seager* |
| | | Lubna Shuja |
| | | Leanne Silvestro* |
| | | Nilla Varsani |
| | | Lynne Vernon |
| | | Helen Wagner* |
| | | Tehniat Watson* |
| | | Miranda Winram |
| | | Peter Wrench* |

*o fis Medi 2023

## Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Mae'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC) yn dyfarnu ar gwynion yn erbyn ceiropractyddion sy'n cael eu hatgyfeirio iddo gan y Pwyllgor Ymchwilio (IC). Os yw'n penderfynu bod sail gref i gŵyn yn erbyn ceiropractydd, bydd y PCC yn cymryd un o'r camau canlynol:

- Rhoi rhybudd i'r ceiropractydd
- Gosod amodau drwy orchymyn ymarfer
- Gwahardd cofrestriad y ceiropractydd am gyfnod penodol
- Tynnu enw'r ceiropractydd oddi ar y gofrestr.

Mae pob panel PCC yn cynnwys un ceiropractydd cofrestredig a dau aelod lleyg, gydag aelod lleyg yn gweithredu fel Cadeirydd. Penodir aelodau o'r pwyllgor gan y Cyngor yn dilyn proses recriwtio neu gyfethol. Mae asesydd cyfreithiol yn bresennol i roi cyngor i'r Pwyllgor ar bwyntiau o'r gyfraith a stenograffydd i gofnodi trawsgrifiad o'r achos.

Caiff rôl Cadeirydd gyffredinol ei phenodi a'i chefnogi gan y weithrediaeth wrth ymgymryd ag agweddau gweithredol megis recriwtio, arfarnu a hyfforddi aelodau o'r Pwyllgor. Mae Cadeirydd cyffredinol y PCC hefyd yn adrodd am weithgareddau'r Pwyllgor wrth y Cyngor ym mis Mawrth bob blwyddyn.

Cwblhaodd aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio eu harfarniadau yn 2023, gan fodloni'r safon ofynnol i gyflawni eu rolau.

## Y Pwyllgor Iechyd

Mae'r Pwyllgor Iechyd yn ystyried unrhyw honiad a atgyfeiriwyd gan y Pwyllgor Ymchwilio ynghylch ffitrwydd i ymarfer ceiropractydd oherwydd eu hiechyd corfforol neu feddyliol.

Os bydd y Pwyllgor Iechyd yn penderfynu bod sail gref i honiad, bydd yn cymryd un o'r camau canlynol:

- Gosod amodau drwy orchymyn ymarfer
- Gwahardd cofrestriad y ceiropractydd am gyfnod penodol

Mae aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yr un peth a gallant eistedd ar y naill Bwyllgor na'r llall. Nid eisteddodd y Pwyllgor Iechyd yn 2023.

**Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol**

| Cadeiryddion | Aelodau Cofrestredig | Aelodau Lleyg |
|---|---|---|
| Cadeirydd Cyffredinol: | Ceri Edwards | Claire Bonnet |
| Claire Bonnet | Julie McKay | Michael Glickman |
| Cadeiryddion Lleyg: | Laura Metcalfe | Suzanna Jacoby |
| Rachel O'Connell | Andrew Miles | Ann McKechin |
| Derek McFaull | Kenneth Young | Derek McFaull |
| John Walsh | | Rachel O'Connell |
| | | Amanda Orchard |
| | | Hannah Poulton |
| | | Julie Stone |
| | | Carolyn Tetlow |
| | | John Walsh |
| | | Yvonne Walsh |

### Tribiwnlys Apeliadau Iechyd

Gall ceiropractydd cofrestredig apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Iechyd i'r Tribiwnlys Apeliadau Iechyd. Ni wnaed unrhyw apêl o'r fath yn ystod 2023.

## Pwyllgor anstatudol

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai o'i bwerau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae pwerau dirprwyedig y Pwyllgor yn cynnwys goruchwylio'r berthynas ag archwilwyr allanol – gan gynnwys argymell eu penodiad, ailbenodiad, a'u tynnu o'r Cyngor; adolygu ac argymell cyfrifon blynyddol i'r Cyngor; adolygu canfyddiadau'r archwiliad blynyddol; adolygu'r trefniadau chwythu'r chwiban; goruchwylio rheolau mewnol a systemau rheoli risg; adolygu a monitro prydlondeb ac uniondeb trefniadau adrodd ariannol y CCC. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd yn mynychu pob cyfarfod ynghyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill yn dod unwaith y flwyddyn i gyflwyno asesiad o'r risgiau yn eu Cyfarwyddiaeth nhw. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Gwnaeth y Pwyllgor gwrdd deirgwaith ym mis Mawrth, mis Mai a mis Tachwedd 2023.

**Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg**

| Aelod o'r Cyngor | Manylion yr aelod | Dyddiadau Aelodaeth | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Fergus Devitt (Cadeirydd) | Aelod lleyg o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Elisabeth Angier | Aelod cofrestredig o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Jennifer Adams | Aelod lleyg o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Shelagh Kirkland | Aelod allanol annibynnol | Drwy gydol y flwyddyn | 3 o 3 |

### Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn goruchwylio cydnabyddiaeth ariannol, buddion a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a'r uwch-dîm rheoli ac yn gosod fframwaith cydnabyddiaeth ariannol cyffredinol holl gyflogeion y CCC. Mae'r Pwyllgor yn cymryd trosolwg o'r strategaeth bobl a'r polisïau allweddol.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar bolisi cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y Cadeirydd ac aelodau o'r Cyngor ac aelodau o bwyllgorau statudol ac anstatudol y CCC.

Gwnaeth y Pwyllgor gwrdd teirgwaith ym mis Ebrill, mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2023.

**Aelodau o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol**

| Aelod o'r Cyngor | Manylion yr aelod | Dyddiadau Aelodaeth | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Steven Gould (Cadeirydd) | Aelod lleyg o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Mary Chapman | Cadeirydd y Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 2 o 3 |
| Annie Newsam | Aelod cofrestredig o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Keith Richards | Aelod lleyg o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 3 o 3 |
| Andrea Sillars | Aelod allanol annibynnol | Drwy gydol y flwyddyn | 3 o 3 |

## Y Pwyllgor Penodiadau

Rôl y Pwyllgor Penodiadau yw asesu ymgeiswyr yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt, gan sicrhau y dilynwyd y broses yn gywir, a phenderfynu a ddylid argymell penodiad unigolyn i'r Cyfrin Gyngor.

Gwnaeth y Pwyllgor Penodiadau gwrdd teirgwaith (27 Mawrth, 28 Tachwedd a 29 Tachwedd 2023) i argymell penodiadau i'r Cyfrin Gyngor.

**Aelodau o'r Pwyllgor Penodiadau**

| Aelod o'r Cyngor | Manylion yr aelod | Dyddiadau Aelodaeth | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Mary Chapman | Cadeirydd y Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 1 o 1 |
| Jennifer Adams | Aelod lleyg o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 1 o 1 |
| Ralph Pottie | Aelod cofrestredig o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 2 o 2 |
| Bev Messinger | Aelod Annibynnol y Panel | Drwy gydol y flwyddyn | 2 o 2 |
| Joe Montgomery | Cadeirydd Annibynnol y Panel | Drwy gydol y flwyddyn | 1 o 1 |
| Steven Gould | Aelod lleyg o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 2 o 2 |
| Elisabeth Angier | Aelod cofrestredig o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 1 o 1 |
| Keith Richards | Aelod lleyg o'r Cyngor | Drwy gydol y flwyddyn | 1 o 1 |

# Adroddiad a chyfrifon ariannol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag adrannau 41A a 41(5) o Ddeddf Ceiropractyddion 1994, fel a ddiwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2008.

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (CCC) yw rheolydd annibynnol ceiropractyddion y DU. Mae'r CCC yn atebol i Senedd y DU ac mae'n destun craffu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA). Dyletswydd statudol y CCC yw datblygu a rheoleiddio'r proffesiwn ceiropracteg, a thrwy hynny diogelu cleifion a'r cyhoedd.

Cyngor
Ceiropractig
Cyffredinol

# Cynnwys

Adolygiad ariannol ........ 36

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ........ 40

Datganiadau ariannol 2023 ........ 42

Nodiadau i'r cyfrifon ........ 45

Manylion cyfreithiol a gweinyddol ........ 56

# Adolygiad ariannol

## Cyflawni a chynnal cynaliadwyedd ariannol

### Strategaeth ariannol

Yn 2018, penderfynodd y Cyngor symud materion ariannol y CCC i sefyllfa fwy cynaliadwy, yn dilyn sawl blwyddyn o ddiffygion. Nod y cynllun cynaliadwyedd ariannol oedd gweithio tuag at gyflawni sefyllfa gyllidebol a oedd yn gytbwys o leiaf erbyn mis Rhagfyr 2021. Dechreuodd y broses o roi'r strategaeth ar waith ar 1 Ionawr 2019. Mae'n bleser gennym adrodd y cyflawnwyd y strategaeth yn 2022 gyda gweddill pennawd (h.y. gweddill dros ben cyn enillion ar fuddsoddiadau a threthiant) o £72,000. Yn ystod blwyddyn ariannol 2023, cawsom ni weddill pennawd o £55,000.

Cymeradwyodd y Cyngor strategaeth ariannol ar gyfer 2023-2025 ym mis Mehefin 2022. Roedd y strategaeth y cytunwyd arni'n mynnu cyflawni gweddill dros ben yn y gyllideb flynyddol o leiaf 1.5% o 1 Ionawr 2023. Ymhellach, cadarnhaodd y strategaeth gyflawniad targed ar gyfer lled y gweddill cyllidebol dros ben o leiaf 2% ar gyfer prosiectau i'w cyflwyno o 1 Ionawr 2023 ymlaen. Wrth i gynlluniau optimeiddio refeniw a chostau yn y strategaeth ariannol gael eu rhoi ar waith yn llawn, mae'r Cyngor yn disgwyl creu lefelau rhesymol o weddillion dros ben a chynaliadwy bob blwyddyn rhwng 2023 a 2025. Cyflawnwyd y targed dargadw gweddillion dros ben blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023.

### Disgyblaethau ariannol

Roedd safonau uchel o atebolrwydd ariannol a gonestrwydd yn parhau i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Caiff cyfrifoldeb dros gyllidebau ei ddirprwyo i staff uwch, gan ddefnyddio'r cyfrifon rheoli misol i olrhain perfformiad ariannol a chymryd camau cywirol. Cynhaliwyd rhagolwg canol y flwyddyn o weithgareddau ariannol (h.y. adolygiad o'r gyllideb wreiddiol) ac fe'i hystyriwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin i sicrhau bod y targedau ariannol a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn parhau i fod yn ddichonadwy.

### Strategaeth fuddsoddi


Gwnaeth y Cyngor monitro ei strategaeth fuddsoddi'n agos yn ystod y flwyddyn. Yn unol ag arfer da, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad ffurfiol o reolaeth y portffolio buddsoddi bob tair i bum mlynedd. Mae'r Cyngor hefyd yn ymgymryd ag adolygiad o berfformiad y portffolio yn ei gyfarfodydd chwarterol.

## Canlyniadau gweithredol ar gyfer y flwyddyn

Mae canlyniadau pennawd gweithredol cyn addasiadau incwm buddsoddi ar gyfer y flwyddyn (h.y. cyfanswm yr incwm minws gwariant) yn dangos gweddill dros ben o £55,000 (2022: £72,000).

### Cyfanswm yr incwm

Enillon ni gyfanswm incwm o £3.125m o'r ffynonellau canlynol yn ystod blwyddyn ariannol 2023 (2022:£3.014m).




O gyfanswm incwm 2023, roedd ffioedd aelodau'n cynrychioli 93% (£2.9m), gyda buddsoddiad ac incwm arall yn gwneud y gweddill o 7% (£228,000). Yn y flwyddyn cyn hynny, roedd ffioedd cofrestru yn cyfrannu at 92% (£2.8m) o gyfanswm yr incwm ac roedd ffynonellau eraill yn dod i 8% (£240,000).

Cynyddodd cyfanswm yr incwm gan 3.7% (£111,000) o £3.014m i £3.125m yn ystod y flwyddyn. Mae twf incwm yn y flwyddyn oherwydd nifer uwch yr aelodau cofrestredig blynyddol a chychwynnol, adferiadau ac incwm arall.

**Sut cafodd cyfanswm yr incwm ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn**

Roedd cyfanswm y costau gweithredu yn ystod y flwyddyn yn £3.070m (2022: £2.942m). Mae'r graff tabl isod yn dangos sut y cafodd cyfanswm yr incwm ei wario yn ystod y flwyddyn.

**Sut mae cyfanswm yr incwm wedi'i wario yn ystod y flwyddyn**




Fel y gellir gweld o'r siart gylch uchod, gwariwyd 60% (£1.872m) o'n hincwm blynyddol yn uniongyrchol ar reoleiddio a datblygu'r proffesiwn. Roedd llywodraethu'n 6% (£190,000), costau cefnogi (32%, £1.008m) a'r gweddill o £55,000 (2%) sy'n cynrychioli'r gweddill gweithredol a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn a'i gadw yn y gronfa gyffredinol.

Mae cyfanswm y costau'n cynnwys technoleg (£177,000), adnoddau dynol (£69,000), eiddo (£239,000), cyflogau staff ar gyflog a chostau swyddfeydd a rennir (£523,000).

## Addasiadau ar fuddsoddiadau a threthiant

Perfformiodd y buddsoddiadau a restrwyd yn dda yn ystod y flwyddyn, gyda chynnydd mewn gwerth o £75,000 (1.7%) o £4.461m ar 31 Rhagfyr 2022 i £4.535m ar 31 Rhagfyr 2023.

Gan ystyried yr addasiadau ar fuddsoddiadau a chostau treth yn ystod y flwyddyn, mae'r gweddill dros ben net ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw £121,000 (2022: diffyg net o £229,000).

### Busnes gweithredol

Mae aelodau'r Cyngor yn ystyried y sefydliad i fod yn fusnes gweithredol yn dilyn adolygiad o gronfeydd wrth gefn y CCC, rhagolygon llif arian a chyllidebau am o leiaf y 12 mis nesaf. Roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn cyffredinol, dynodedig, cyfyngedig ac ailbrisio o £3.401m ym mis Rhagfyr 2023 (2022: £3.280m).

### Polisi cronfeydd wrth gefn

Mae'r Cyngor wedi cytuno i bolisi cronfeydd wrth gefn cyffredinol sy'n cynnwys cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig. Caiff cronfeydd anghyfyngedig eu rhannu ymhellach yn gronfa gyffredinol, yn gronfa ddynodedig ac yn gronfa ailbrisio. Mae'r cronfeydd cyfyngedig yn deillio pan fydd y rhoddwr wedi pennu cyfyngiadau ar sut y gellir defnyddio'r cronfeydd. Ar hyn o bryd, mae gan y CCC un gronfa gyfyngedig. Mae cronfeydd dynodedig yn cynrychioli'r cronfeydd hynny sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prif brosiectau nad ydynt yn rhan o weithgareddau beunyddiol y CCC.

Cytunodd y Cyngor ar bolisi cronfeydd wrth gefn ym mis Mawrth 2019. Y polisi yw dal cronfa wrth gefn rydd (cronfeydd anghyfyngedig minws asedau sefydlog) sy'n gyfwerth â chostau gweithredu blynyddol wedi'u cyllido anghyfyngedig o £1.630m (2022: £1.410m). Caiff y cronfeydd eu dal yn y gronfa gyffredinol. Nid oes gan y Cyngor gyfyngiadau ar y defnydd o'r cronfeydd hyn ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol. Ar 31 Rhagfyr 2023, cyflawnwyd y targed o gronfeydd wrth gefn rydd 6 mis.


Caiff y lefel o gronfa wrth gefn rydd sy'n ofynnol ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'i argymell i'r Cyngor i'w ystyried a chytuno iddo.

Mae cyfanswm y cronfeydd a ddelir ar 31 Rhagfyr 2023 yn £3.401m (2022: £3.280m). O hyn, caiff £1.630m ei ddal yn y Gronfa Gyffredinol, £1.159m yn y Gronfa Ddynodedig, £0.585m yn y Gronfa Ailbrisio a £0.027m yn y Gronfa Gyfyngedig. Mae'r Cyngor yn cadarnhau y cyflawnwyd y lefel angenrheidiol o gronfa wrth gefn rydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

### Polisi a pherfformiad buddsoddi

Cynhaliodd y Cyngor ei strategaeth fuddsoddi, a gafodd ei hadolygu yn 2020 ddiwethaf, o gadw cyfalaf mewn termau real, ennill incwm blynyddol o Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ynghyd â 3% (tua £120,000 y flwyddyn) gyda pharodrwydd i dderbyn risg canolog ac effeithiol. Yn ogystal, gwnaeth y Cyngor barhau i geisio cyfleoedd buddsoddi moesegol, drwy ei gynghorwr a'i rheolwyr buddsoddi, drwy gydol y flwyddyn.

Roedd cyfanswm gwerth ar y farchnad y portffolio'n £4,535,257 ar 31 Rhagfyr 2023. Mae'r asedau a'u gwerthoedd wedi'u rhannu'n gyffredinol i ecwitïau, bondiau, amlasedau ac arian parod. Maent wedi'u cynrychioli yn y graff isod.




Creodd y portffolio buddsoddi gyfanswm elw o 4.5% yn erbyn meincnod (mewnol) y cytunwyd arno gan CCC o 6.7% (h.y. CPI a 3%) yn ystod y flwyddyn (2022: elw portffolio -6.3% yn erbyn y meincnod o 13.5%).

Roedd y colledion heb eu gwireddu yn ystod y flwyddyn yn £30,000 ac roedd y symiau wedi'u gwireddu yn dod i £126,000. Mae'r colledion cyfunedig wedi rhoi cyfanswm elw o £96,000 (2022: colledion buddsoddi net o £401,000).

Mae rheolwyr cronfeydd yn meincnodi'r perfformiad cyffredinol o'r portffolio yn erbyn Mynegai Ymgynghorwyr Risg Asedau (ARC).

## Archwilydd

**Datganiad am ddatgelu gwybodaeth i'r Archwilydd**

Ar adeg cymeradwyo'r adroddiad hwn, mae aelodau o'r Cyngor yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwiliadwy berthnasol nad yw ymchwilydd y Cyngor yn wybodol ohoni a bod aelodau o'r Cyngor wedi cymryd yr holl gamau priodol i sicrhau yr oeddent yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliadwy berthnasol a chadarnhau bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Cyfrifoldebau aelodau wrth baratoi datganiadau ariannol**

Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyngor a'r Datganiad Ariannol yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol.

Mae Deddf Ceiropractyddion 1994, fel a ddiwygiwyd, yn ei gwneud hi'n ofynnol i aelodau o'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i weddill dros ben neu ei ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ariannol. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae angen i aelod:

- Ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson
- Creu barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn bwyllog
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes weithredol oni bai ei bod hi'n amhriodol i gymryd yn ganiataol y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.

Mae aelodau'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd sefyllfa ariannol y Cyngor a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Ceiropractyddion 1994, fel a ddiwygiwyd. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor, ac felly am gymryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu twyll ac anghysondeb arall. Mae'r aelodau wedi ceisio sicrwydd gan y Prif Weithredwr nad oes unrhyw faterion eraill mae angen eu datgelu mewn perthynas â'r datganiadau hyn.

Mae aelodau'n gyfrifol am gynhaliaeth ac uniondeb gwybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Cyngor. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli gwaith paratoi a chylchredeg datganiadau ariannol amrywio o ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 20 Mawrth 2024 a'i lofnodi ar ei ran gan:



**Jonathan McShane**
**Cadeirydd, Cyngor Ceiropractig Cyffredinol**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 sy'n cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, Datganiad Llif Arian, a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso yn eu paratoadau yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg o sefyllfa materion y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2023 ac addasiadau net o ran cronfeydd, gan gynnwys yr incwm a'r gwariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Ceiropractyddion 1994.

## Sail y farn

Cynhalion ni ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio mewn mwy o fanylder yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol yn unol â gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi bodloni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chasglu'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail am ein barn.

## Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Wrth archwilio datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd aelodau o sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennym, nid ydym ni wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n berthnasol i ddigwyddiadau neu amodau a allai, naill ai yn unigol neu ar y cyd, beri amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis fan leiaf o'r adeg awdurdodi cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Caiff ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r aelodau mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r aelodau'n gyfrifol am wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad y Cyngor. Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio lle datgenir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw ffurf o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn faterol â'r datganiadau ariannol, neu ein gwybodaeth a gafwyd o'r archwiliad neu a yw'n ymddangos i fod wedi'i gamfynegi'n faterol mewn rhyw ffordd arall. Os byddwn yn nodi anghysondebau materol neu'r hyn sy'n ymddangos i fod yn gamfynegiad materol, mae angen i ni nodi a oes camfynegiad materol yn y datganiadau ariannol neu gamfynegiad materol o'r wybodaeth arall. Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gennym, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camfynegiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennym ni unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Materion mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt drwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol a'i amgylchedd a gasglwyd yn ystod yr archwiliad hwn, nid ydym wedi nodi camfynegiadau materol yn Adroddiad y Cyngor.

## Cyfrifoldebau aelodau o'r Cyngor o ran y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r aelodau a amlinellir ar dudalen 40, mae aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain bod y datganiadau'n cynnig darlun gwir a theg, ac am reoli mewnol o'r fath y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag cam-fynegi materol, boed drwy gamgymeriad neu dwyll.

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae'r aelodau'n gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu lle bo'n berthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod aelodau naill ai'n bwriadu datod y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu fod dim opsiwn amgen realistig

ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau archwilwyr am archwilio datganiadau ariannol

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch rhyddid y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd rhag camfynegi materol, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw hyn yn warantiad y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safon Ryngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn datgelu camfynegiad materol pan fydd yn bodoli. Gall camfynegiadau ddeillio o dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau'n unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ddatgelu camfynegi materol mewn perthynas ag anghysondebau, gan gynnwys twyll. Mae manylion am i ba raddau mae ein gweithdrefnau'n gallu datgelu anghysondebau, gan gynnwys twyll, isod:

## Esboniad o ran i ba raddau ystyriwyd y gallai'r archwiliad ddatgelu anghysondebau, gan gynnwys twyll

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, nodwyd gennym ni mai'r prif risgiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau oedd ymwneud â Deddf Ceiropractyddion 1994, ac ystyriwyd y ba raddau y gallai diffyg cydymffurfiaeth gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol gennym. Yn ogystal, ystyrion ni'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny mae ganddynt effaith uniongyrchol ar baratoad y datganiadau ariannol, megis Deddf Ceiropractyddion 1994 a chymhwyso FRS 102, treth incwm a threth cyflogres.

Gwerthuson ni anogaeth a chyfleoedd rheoli ar gyfer addasiadau twyllodrus i'r datganiadau ariannol (gan gynnwys y risg o fynd y tu hwnt i'r rheolau) a phenderfynwyd bod y prif risgiau'n ymwneud â phostio cofnodion cyfnodolion amhriodol i duedd refeniw a rheoli mewn amcangyfrifon cyfrifyddu. Roedd gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd gan y tîm ymgysylltu'n cynnwys:

- Ymholiadau am reoli gohebiaeth â rheoleiddwyr ac awdurdodau treth
- Trafodaethau â rheolwyr, gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu a amheuir o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoleiddio a thwyll
- Gwerthuso rheolau rheolwyr a gynlluniwyd i atal a datgelu anghysondebau
- Nodi a phrofi cyfnodolion, yn enwedig cofnodion cyfnodolion a bostiwyd gyda chyfuniadau cyfrif anarferol, symiau crwn a phostiadau gan ddefnyddwyr anarferol neu gyda disgrifiadau anarferol
- Herio tybiaethau a barn rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifo hanfodol.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na fyddwn yn datgelu'r holl anghysondebau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n arwain at gamfynegi materol yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfiaeth â rheoleiddio. Mae'r risg hon hefyd yn cynyddu'n fwy wrth i gydymffurfiaeth â'r gyfraith neu reoliadau gael eu tynnu o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, oherwydd y byddwn yn llai tebygol i fod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae'r risg hefyd yn fwy o ran anghysondebau a achosir gan dwyll yn hytrach na gwall, gan fod twyll yn cynnwys cuddio bwriadol, ffugio, cynllwynio, hepgor neu gam-gynrychioli.

Mae disgrifiadau pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

## Defnyddio ein hadroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i wneud i'r aelodau'n unig, fel corff, yn unol â Deddf Ceiropractyddion 1994. Mae ein gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y gallwn ddatgan i'r aelodau'r materion hyn mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol a'r aelodau fel corff, ar gyfer ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, neu ar gyfer y farn rydym wedi'i chreu.

**Haysmacintyre LLP**

**Archwilydd Statudol**

10 Queen Street Place

Llundain, EC4R 1AG

Haysmacintyre LLP

Dyddiad: 27 Mawrth 2024

Mae Haysmacintyre LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd o dan adran 1212 Deddf Cwmnïau 2006.

# Datganiadau ariannol 2023

## Incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2023

| | Nodiadau | 31 Rhagfyr 2023 £ | 31 Rhagfyr 2022 £ |
|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | |
| Ffioedd cofrestru - cofrestriad newydd | | 179,850 | 190,650 |
| Swm dargadw blynyddol | | 2,689,950 | 2,547,200 |
| Ffioedd eraill | 1 | 27,750 | 36,000 |
| Llog banc sy'n dderbyniadwy | | 24,689 | 4,374 |
| Incwm buddsoddi | 3 | 120,000 | 120,000 |
| Ffioedd prawf cymhwysedd | | 78,000 | 112,000 |
| Incwm arall | | 4,900 | 3,862 |
| **CYFANSWM YR INCWM** | | **3,125,139** | **3,014,086** |
| **GWARIANT** | | | |
| Costau a rennir | 5 | 1,007,997 | 991,724 |
| Costau Rheoleiddio | 6 | 1,174,648 | 1,216,172 |
| Costau Datblygu | 7 | 697,914 | 612,499 |
| Costau Llywodraethu | 8 | 189,756 | 122,153 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | | **3,070,315** | **2,942,548** |
| **SWM DROS BEN GWEITHREDOL CYN TRETH AC ADDASIADAU I FUDDSODDIADAU** | | **54,824** | **71,538** |
| Enillion/(colledion) ar fuddsoddiadau | 11 | 96,119 | (400,570) |
| **(DIFFYG)/GWEDDILL DROS BEN CYN TRETH** | | **150,943** | **(329,032)** |
| Treth | 9, 15 | (30,072) | 99,994 |
| **(DIFFYG)/GWEDDILL DROS BEN AR GYFER Y CYFNOD** | | **120,871** | **(229,038)** |

Mae'r gweddill dros ben gweithredol ar gyfer y cyfnod yn deillio o weithgareddau parhaus y Cyngor.

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 45-55 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

## Mantolen ar 31 Rhagfyr 2023

| | Nodiadau | 31 Rhagfyr 2023 £ | 31 Rhagfyr 2022 £ |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | |
| Asedau diriaethol | 10 | - | - |
| Buddsoddiadau | 11 | 4,535,256 | 4,460,651 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU SEFYDLOG** | | **4,535,256** | **4,460,651** |
| **ASEDAU PRESENNOL** | | | |
| Dyledwyr | 13 | 50,568 | 43,746 |
| Arian parod yn y banc | | 2,280,429 | 2,123,351 |
| | | 2,330,997 | 2,167,097 |
| **RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL** | | | |
| Symiau sy'n daladwy o fewn un flwyddyn | 14 | (3,277,437) | (3,132,545) |
| **RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL NET** | | **(946,440)** | **(965,448)** |
| **CYF. ASEDAU MINWS RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL** | | **3,588,816** | **3,495,203** |
| **CREDYDWYR** | | | |
| Darpariaethau a rhwymedigaethau eraill | 15 | (187,735) | (214,993) |
| **CYF. ASEDAU MINWS CYFANSWM Y RHWYMEDIGAETHAU** | | **3,401,081** | **3,280,210** |
| **CRONFEYDD Y CYNGOR** | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | 16 | 1,629,698 | 1,410,000 |
| Cronfa wrth gefn ddynodedig | 16 | 1,163,836 | 1,232,267 |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | 16 | 580,498 | 603,844 |
| Cronfa wrth gefn gyfyngedig | 2, 16 | 27,049 | 34,099 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | **3,401,081** | **3,280,210** |

Cymeradwywyd ac awdurdodwyr i'w gyhoeddi gan aelodau'r Cyngor ar 20 Mawrth 2024, a'i lofnodi ar eu rhan gan:



**Jonathan McShane**
**Cadeirydd, Cyngor Ceiropractig Cyffredinol**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 45-55 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

## Datganiad o lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023

| | 31 Rhagfyr 2023 £ | 31 Rhagfyr 2022 £ |
|---|---|---|
| **LLIFAU ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | |
| **(Diffyg)/gweddill dros ben ar gyfer y flwyddyn ariannol** | **120,871** | **(229,038)** |
| Addasiadau ar gyfer: | | |
| Difidendau a llog sy'n dderbyniadwy | (144,689) | (124,374) |
| Dibrisiant asedau diriaethol | - | - |
| Ailfesuriadau (diffyg pensiwn) | (520) | (960) |
| Addasiad ar ddibrisio buddsoddiadau | (96,119) | 400,570 |
| Swm y dreth/(credyd) | 30,072 | (99,994) |
| Treth a dalwyd | (6,745) | (11,537) |
| (Cynnydd) /gostyngiad mewn dyledwyr | (6,822) | (3,310) |
| Cynnydd mewn credydwyr | 154,971 | 288,891 |
| **ARIAN PAROD NET A GRËWYD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | **(9,125)** | **220,248** |
| **LLIFAU ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | |
| Gwerthiant buddsoddiadau | 1,278,143 | 1,214,488 |
| Pryniant buddsoddiadau | (1,262,572) | (1,160,207) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn incwm buddsoddi a gronnwyd | 782 | (652) |
| Difidendau a llog a dderbyniwyd | 137,528 | 112,830 |
| **ARIAN PAROD NET A GRËWYD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | **153,881** | **166,459** |
| Cynnydd net mewn arian parod ac sy'n cyfateb i arian parod | 144,756 | 386,707 |
| Arian parod ac sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 2,163,215 | 1,776,509 |
| **Arian parod ac sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **2,307,972** | **2,163,216** |
| **ARIAN PAROD YN Y BANC AC WRTH LAW** | | |
| Balans yn y banc | 2,280,429 | 2,123,351 |
| Balans a ddelir gan reolwyr buddsoddi | 27,543 | 39,865 |
| **Arian parod ac sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **2,307,972** | **2,163,216** |

| **DADANSODDIAD NEWIDIADAU DYLED NET** | **1 Ionawr 2023 £** | **Llifau arian £** | **31 Rhagfyr 2023 £** |
|---|---|---|---|
| **Arian parod ac sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | | | |
| Balans yn y banc | 2,123,350 | 157,079 | 2,280,429 |
| Balans a ddelir gan reolwyr buddsoddi | 39,865 | (12,322) | 27,543 |
| **Cyfanswm** | **2,163,215** | **144,757** | **2,307,972** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45-55 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## Polisïau cyfrifyddu

### Sail y cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â chonfensiwn costau hanesyddol ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 ("FRS 102"), sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gwiriniaeth Iwerddon.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae rheolwyr wedi ffurfio barn, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar gais polisïau cyfrifyddu CCC a'r asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant a adroddwyd a'r datgeliadau a wnaed yn y datganiadau ariannol. Caiff amcangyfrifon a barn eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau'r dyfodol a ystyrir i fod yn rhesymol dan yr amgylchiadau.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae aelodau o'r Cyngor wedi adolygu rhagolygon a chyllidebau cronfeydd wrth gefn a llif arian am y 12 mis nesaf o leiaf ac yn seiliedig ar eu hasesiad, maent yn ystyried y statws o fusnes gweithredol i fod yn briodol.

### Amcangyfrifon a barn hanfodol

Nid oes amcangyfrifon na barn sy'n ddigon sylweddol i achosi datgeliad ar wahân, lle nad oes eisoes nodyn am y cyfrifon hen na pholisi cyfrifyddu presennol.

### Incwm

Caiff ffioedd cofrestru, ffioedd dargadw blynyddol, incwm arall ac incwm gosod eu cydnabod ar sail gronnol yn unol â'r cyfnod mae'n berthnasol iddo.

Caiff llog adneuo banc ei gredyd ar sail a dderbynnir.

### Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan y CCC. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod yn gychwynnol ar werth trafodiad ac yn ddiweddarach, cânt eu mesur ar eu gwerth setliad.

### Dyledwyr

Caiff masnach a dyledwyr eraill eu cydnabod ar y swm setliad sy'n ddyledus yn dilyn unrhyw ostyngiad masnach a gynigir. Caiff rhagdaliadau eu prisio ar swm net y rhagdaliad o unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

### Sail am gydnabod rhwymedigaethau

Caiff adnoddau a ddefnyddir eu cynnwys ar sail gronnol. Caiff yr holl rwymedigaethau eu cydnabod cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladu o ymrwymo’r sefydliad i'r gwariant hwnnw.

### Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau

Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan y sefydliad rwymedigaethau gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Cânt eu cydnabod pan fydd hi'n debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

### Asedau diriaethol sefydlog

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu datgan ar gost hanesyddol minws dibrisiad. Cynhelir cofrestr o eitemau o dir, adeiladau, ffatrïoedd sefydlog, peiriannau a chyfarpar â chost o £2,500 neu fwy.

### Dibrisiad

Darperir dibrisiad ar yr holl asedau sefydlog diriaethol, ar wahân i dir rhydd-ddaliadol, ar gyfraddau a gyfrifir i ostwng gwerth pob ased i'w werth gweddilliol a amcangyfrif yn hafal ar draws ei oes o ddefnyddioldeb, fel a ganlyn:

- Adeiladau rhydd-ddaliadol dros 50 mlynedd
- Cyfarpar cyfrifiadurol dros 3 blynedd
- Dodrefn a chyfarpar swyddfa dros 5 mlynedd
- Costau datblygu meddalwedd dros 5 mlynedd
- Lesddaliad dros gyfnod y les

Caiff yr holl asedau eu dileu flwyddyn ar ôl iddynt gael eu disbrisio'n llawn.

## Treth bresennol a gohiriedig

Caiff treth gorfforaeth y CCC ei hasesu ar ei incwm buddsoddi gan gynnwys enillion ar waredu gwarantau. Mae'r holl weddillion dros ben eraill wedi'u heithrio o dreth o dan reolau cyd-fasnachu.

Caiff treth ohiriedig ei chydnabod mewn perthynas â'r holl wahaniaethau amseru sydd wedi deillio, ond heb eu gwrth-droi ar ddyddiad y fantolen, lle mae trafodiadau neu ddigwyddiadau sy'n arwain at rwymedigaeth i dalu mwy o dreth yn y dyfodol, neu hawl i dalu llai o dreth yn y dyfodol, sydd wedi digwydd ar ddyddiad y fantolen. Gwahaniaethau amseru yw gwahaniaethau rhwng elw trethadwy'r CCC, a'i ganlyniadau fel a ddatganir yn y datganiadau ariannol.

Caiff treth ohiriedig ei mesur ar gyfraddau treth cyfartalog a ddisgwylir iddynt fod yn berthnasol yn ystod y cyfnodau lle disgwylir i wahaniaethau amseru wrth-droi, yn seiliedig ar gyfrannau a chyfreithiau treth sydd wedi dod i rym, neu ddod i rym yn sylweddol, erbyn dyddiad y fantolen. Caiff treth ohiriedig ei mesur ar sail dim gostyngiad.

## Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau'n ffurf o offerynnau ariannol sylfaenol a chânt eu dangos i ddechrau yn y datganiadau ariannol ar werth teg. Dengys addasiadau i werthoedd teg y buddsoddiadau fel enillion a cholledion heb eu gwireddu yn y cyfrif incwm a gwariant.

## Buddion cyflogeion

*Buddion byrdymor* – Caiff buddion byrdymor gan gynnwys tâl gwyliau eu cydnabod fel cost yn y cyfnod pan dderbynnir y gwasanaeth.

*Buddion terfynu cyflogaeth* - Ystyrir buddion terfynu ar sail gronnol ac yn unol â FRS 102.

*Cyfraniadau pensiwn* - Mae'r CCC yn gwneud taliadau ar ran cyflogeion penodol i gynlluniau pensiwn cyfraniad diffiniedig. Caiff asedau'r cynlluniau eu dal ar wahân i rai'r Cyngor, ac maent yn cael eu buddsoddi mewn cwmnïau yswiriant.

## Digwyddiadau ôl-fantolen

Nid oes materion i adrodd amdanynt mewn perthynas â digwyddiadau ôl-fantolen.

| NODYN 1: | FFIOEDD ERAILL | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|
| | Ffi adfer | 18,950 | 25,600 |
| | Ddim yn ymarfer i ymarfer | 8,800 | 10,400 |
| | | **27,750** | **36,000** |

| NODYN 2: | ADRAN GRANT IECHYD | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|
| | Gweddill a ddygir ymlaen | 34,099 | 37,849 |
| | Incwm | - | - |
| | Gwariant | (7,050) | (3,750) |
| | | **27,049** | **34,099** |

Derbyniodd y CCC grant gan yr Adran Iechyd i'w gwneud hi'n bosib i'r Cygnor ddatblygu system risg gymesur o Ffitrwydd i Ymarfer parhaus (Ail-ddilysu) i Geiropractyddion.

**NODYN 3: INCWM BUDDSODDI**

Mae incwm buddsoddi o £120,000 y flwyddyn yn ymwneud â llog banc, difidendau a symiau derbyniadwy eraill o'r portffolio buddsoddi. Gwnaed y buddsoddiad cychwynnol £4 miliwn yn 2013. Y prisiad ar 31 Rhagfyr 2023 oedd £4,535,256 (2022: £4,460,651).

| NODYN 4: | COSTAU STAFF | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| | Nifer y bobl a gyflogir gan y Cyngor yn fisol ac ar gyfartaledd (ac eithrio'r aelodau) yn ystod y flwyddyn oedd fel a ganlyn: | 16.4 | 15.7 |

| | | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|
| | Costau staff ar gyfer y bobl uchod: | | |
| | Tâl a chyflogau | 854,690 | 792,981 |
| | Costau nawdd cymdeithasol | 97,836 | 94,911 |
| | Costau pensiwn | 85,944 | 78,335 |
| | Costau staff dros dro | 41,390 | 57,270 |
| | Costau recriwtio staff | 14,094 | 34,605 |
| | Cyngor Cyfreithiol | 11,486 | - |
| | | **1,105,440** | **1,058,103** |

Mae aelodau'r Cyngor yn dirprwyo gwaith cynnal y CCC o ddydd i ddydd i'r Uwch-dîm Gweithredol sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a thri Chyfarwyddwr. Ystyrir yr unigolion hyn i fod yn staff rheoli allweddol a chyfanswm eu tâl cydnabyddiaeth a'u buddion ar gyfer y flwyddyn oedd £431,958 (2022: £419,829) a chyfraniadau pensiwn yn y flwyddyn o £38,015 (2022: £36,607).

Gan fod y CCC yn rheolydd cymharol fach, nid yw'n bosib dyrannu pob cyflogai i un maes gweithgaredd yn unig. Mae cyflogwyr sy'n darparu gwasanaethau craidd hefyd yn gweithio mewn meysydd eraill o weithgareddau ond maent wedi'u cynnwys yn y categori "Costau a Rennir" yn y cyfrif Incwm a Gwariant.

| NODYN 5: | COSTAU A RENNIR | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| | Swyddfa'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd | 185,972 | 163,831 |
| | Technoleg | 177,436 | 160,818 |
| | AD | 69,138 | 55,217 |
| | Gwasanaethau Corfforaethol | 336,709 | 328,807 |
| | Eiddo | 238,741 | 283,051 |
| | | **1,007,997** | **991,724** |

Cafodd lwfans ar gyfer costau adnewyddu swyddfa posib a chostau dadfeiliad eu cynnwys yng nghostau eiddo 2022.

| NODYN 6: | COSTAU RHEOLEIDDIO | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| | Tîm Ffitrwydd i Ymarfer (FtP) | 380,336 | 350,787 |
| | Y Pwyllgor Ymchwilio | 192,523 | 205,756 |
| | FtP arall | 38,634 | 38,861 |
| | Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol | 534,076 | 599,721 |
| | Ymchwiliadau Adran 32 | 29,079 | 21,047 |
| | | **1,174,648** | **1,216,172** |

Mae'r costau rheoleiddio hyn yn seiliedig ar weithgareddau, felly mae costau'n cynyddu neu'n gostwng yn unol â lefel y gweithgaredd yn ystod y flwyddyn.

| NODYN 7: | COSTAU DATBLYGU | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| | Tîm Polisi | 422,246 | 428,452 |
| | Cyfathrebu | 165,547 | 52,837 |
| | Sicrhau Ansawdd | 36,449 | 29,123 |
| | Prawf cymhwysedd | 61,830 | 88,296 |
| | Pwyllgor Addysg | 11,842 | 13,791 |
| | | **697,914** | **612,499** |

Mae costau 2023 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd cynnydd mewn ffi dargadw cymorth Cyfathrebu a chost ymgynghoriaeth CAC.

| NODYN 8: | COSTAU LLYWODRAETHU | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| | Cyngor | 186,864 | 117,877 |
| | Pwyllgorau Cydnabyddiaeth ac Archwilio a Risg | 2,892 | 4,276 |
| | Pwyllgorau Eraill | - | - |
| | | **189,756** | **122,153** |

Cynyddodd cyflog blynyddol aelodau o'r Cyngor i £7,800 (2022: £6,650), gyda Chadeirydd y Cyngor yn cael ei dalu £27,000 (2022: £23,000) y flwyddyn. Mae Cadeiryddion Pwyllgorau'n derbyn £2,000 ychwanegol y flwyddyn.

Mae costau 2023 yn uwch na'r rhai hynny a welwyd yn 2022 oherwydd yr adolygiad tuag i fyny mewn cyflogau'r Cyngor (a adolygwyd ddiwethaf yn 2013) a recriwtio Cadeirydd newydd y Cyngor. Penodwyd y Cadeirydd newydd, Jonathan McShane, i'r Cyfrin Gyngor ym mis Rhagfyr 2023, yn effeithiol o 01 Ionawr 2024.

| NODYN 9: | TRETH | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| | ***Dadansoddiad o gostau treth/(credyd) ar gyfer y cyfnod*** | | |
| | *Treth bresennol* | | |
| | Treth gorfforaeth y DU ar 23.52% (PY:19.00%) | 46,023 | 6,775 |
| | Cyfanswm cost treth bresennol | 46,023 | 6,775 |
| | Treth ohiriedig – tarddiad a gwrth-droi gwahaniaethau amseru | (15,920) | (81,144) |
| | Effaith newid mewn cyfradd dreth ar falans agoriadol | (31) | (25,625) |
| | Cyfanswm treth ohiriedig (credyd)/cost | **(15,920)** | **(106,769)** |
| | **Cost treth/(credyd) ar enillion ar weithgareddau cyffredin** | **30,072** | **(99,994)** |
| | ***Darpariaeth ar gyfer treth ohiriedig*** | | |
| | Enillion cyfalaf/ (colledion) | 147,963 | 163,883 |
| | *Addasiad darpariaeth:* | | |
| | Darpariaeth ar ddechrau'r cyfnod | 163,883 | 270,652 |
| | Cost treth ohiriedig yn y cyfrif P&L ar gyfer y cyfnod | (15,920) | (106,769) |
| | **Darpariaeth ar ddiwedd y cyfnod** | **147,963** | **163,883** |
| | ***Cysoni'r gost dreth*** | | |
| | Elw ar weithgareddau cyffredin cyn treth | 150,943 | (329,032) |
| | Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin ar gyfradd CT safonol o 23.52% (PY:19%) | 35,503 | (62,427) |
| | *Effeithiau:* | | |
| | Gwahaniaethau asedau sefydlog | - | - |
| | Costau nad ydynt yn ddibynadwy at ddibenion treth | 732,902 | 635,252 |
| | Incwm nad yw'n drethadwy at ddibenion treth | (729,697) | (573,247) |
| | Dosraniadau ABGH sydd wedi'u heithrio | (17,610) | (16,372) |
| | Enillion y codir tâl arnynt/(colledion) | 9,916 | (57,575) |
| | Ailfesur treth ohiriedig ar gyfer newidiadau mewn cyfraddau treth | (942) | (25,625) |
| | **Costau treth/(credyd) ar gyfer y cyfnod** | **30,072** | **(99,994)** |

Dealltwriaeth yr aelodau yw bod y Cyngor dim ond yn destun Treth Gorfforaeth y DU ar ei incwm buddsoddi, sy'n cynnwys symiau derbyniadwy o log banc, a'i enillion y gellir codi tâl arnynt.

| NODYN 10: | ASEDAU SEFYDLOG | Cyfarpar cyfrifiadurol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | COST | | |
| | 1 Ionawr 2023 | 105,096 | 105,096 |
| | Ychwanegiadau | - | - |
| | 31 Rhagfyr 2023 | **105,096** | **105,096** |
| | DIBRISIAD | | |
| | 1 Ionawr 2023 | 105,096 | 105,096 |
| | Cost | - | - |
| | 31 Rhagfyr 2023 | **105,096** | **105,096** |
| | GWERTH AR Y LLYFRAU NET | - | - |

| NODYN 11: | BUDDSODDIADAU | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | **£** |
| | Gwerth ar y farchnad ar 1 Ionawr | 4,416,566 | 4,859,873 |
| | Ychwanegiadau ar gost | 1,262,572 | 1,160,208 |
| | Enillion o warediadau | (1,278,143) | (1,214,488) |
| | (Colledion)/enillion heb eu gwireddu | (23,346) | (536,290) |
| | Enillion wedi'u gwireddu | 126,626 | 147,263 |
| | | **4,504,275** | **4,416,566** |
| | Arian parod | 27,543 | 39,865 |
| | Incwm a gronnwyd | 3,438 | 4,220 |
| | Gwerth ar y farchnad ar 31 Rhagfyr | **4,535,256** | **4,460,651** |
| | Costau buddsoddiadau llyfrau hanesyddol (ac eithrio arian parod ac incwm a gronnwyd) | **3,918,925** | **3,813,028** |

Addasiadau net ar y portffolio (ac eithrio arian parod ac incwm a gronnwyd) ar gyfer 2023 oedd £87,709 (2022: (£443,306)).

Mae'r enillion wedi'u gwireddu net o £96,119 ar SOFA 2023 yn cynnwys enillion wedi'u gwireddu gros o £126,626 minws (colledion)/enillion heb eu gwireddu o £23,346 minws £7,161 ar gyfer addasiadau ar y Cyfrif Arian Parod Buddsoddi (ar gyfer difidendau, llog ac incwm a drosglwyddir o'r portffolio). Mae'r Cyfrif Arian Parod Buddsoddi wedi'i gynnwys yng ngwerth ar y farchnad y buddsoddiadau.

Mae'r colledion wedi'u gwireddu net o £400,570 ar SOFA 2022 yn cynnwys colledion wedi'u gwireddu gros o £147,264 minws colledion heb eu gwireddu o £536,290 minws £11,544 ar gyfer addasiadau ar y Cyfrif Arian Parod Buddsoddi (ar gyfer difidendau, llog ac incwm a drosglwyddir o'r portffolio). Mae'r Cyfrif Arian Parod Buddsoddi wedi'i gynnwys yng ngwerth ar y farchnad y buddsoddiadau.

| NODYN 12: | YMRWYMIADAU LES WEITHREDOL | Adeilad 2023 | Adeilad 2022 |
|---|---|---|---|
| | Yn dod i ben: | | |
| | Dan 1 flwyddyn | 175,000 | 175,000 |
| | Rhwng 2 – 5 blynedd | 86,781 | 88,219 |
| | | **261,781** | **263,219** |

Ymrwymodd y CCC i'r les newydd a ddaeth i rym ar 3 Gorffennaf 2018. Mae'r les am gyfnod o 6 blynedd gyda ffi rhenti o £175,000 y flwyddyn. Mae taliadau sylfaenol y dyfodol fel uchod.

| NODYN 13: | DYLEDWYR | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| | Yn ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| | Dyledwyr masnach | 3,190 | 340 |
| | Dyledwyr eraill | - | 1,390 |
| | Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd | 47,378 | 42,016 |
| | | **50,568** | **43,746** |

| NODYN 14: | CREDYDWYR | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| | Symiau sy'n daladwy o fewn un flwyddyn | | |
| | Credydwyr masnach | 79,644 | 70,073 |
| | Ffioedd dargadw o flaen llaw | 2,821,350 | 2,681,350 |
| | Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 38,525 | 44,475 |
| | Credydwyr eraill | 54,000 | 60,239 |
| | Croniadau | 237,895 | 269,633 |
| | Treth gorfforaethol sy'n ddyledus | 46,023 | 6,775 |
| | | **3,277,437** | **3,132,545** |

Mae swm credydwyr 2023 yn dangos cynnydd o £96,000 dros y ffigur 2022. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn derbyniadau incwm ffi dargadw o £142,000 a'r cynnydd mewn croniadau ar gyfer gwariant ymrwymedig i £32,000.

| NODYN 15a: | DARPARIAETHAU A RHWYMEDIGAETHAU ERAILL | | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| | Rhwymedigaeth treth ohiriedig | | 147,963 | 163,883 |
| | Rhwymedigaeth pensiwn buddion a ddiffiniwyd | Nodyn 18 | 590 | 1,110 |
| | Darpariaeth ar gyfer dadafeiliad | | 39,182 | 50,000 |
| | | | **187,735** | **214,993** |

Mae'r rhwymedigaeth treth ohiriedig yn cynnwys treth enillion cyfalaf posib ar fuddsoddiadau.

| NODYN 15b: | DARPARIAETH AR GYFER DADAFEILIAD | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|
| | Balans ar 1 Ionawr | 50,000 | - |
| | Ychwanegiad yn ystod y flwyddyn | - | 50,000 |
| | A ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (10,818) | - |
| | Balans ar 31 Rhagfyr | **39,182** | **50,000** |

O'r ddarpariaeth £50,000 ar gyfer dadafeiliad a wnaed yng nghyfrifon 2022, defnyddiwyd £10,818 yn ystod blwyddyn ariannol 2023.

| NODYN 16: | CRONFEYDD | Balans a ddygir ymlaen 01/01/23 | Incwm | Gwariant | Enillion, Colledion a Throsglwy-ddiadau | Balans a ddysgir ymlaen 31/12/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cronfa wrth gefn gyffredinol | 1,410,000 | 3,125,139 | (3,069,638) | 164,197 | 1,629,698 |
| | Cronfa wrth gefn ddynodedig | 1,232,267 | - | (30,749) | (37,681) | 1,163,836 |
| | Cronfa wrth gefn ailbrisio | 603,844 | - | - | (23,346) | 580,498 |
| | Adran Grant Iechyd | 34,099 | - | - | (7,050) | 27,049 |
| | | **3,280,210** | **3,125,139** | **(3,100,387)** | **96,119** | **3,401,081** |

| | | Balans a ddygir ymlaen 01/01/22 | Incwm | Gwariant | Enillion, Colledion a Throsglwy-ddiadau | Balans a ddygir ymlaen 31/12/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cronfa wrth gefn gyffredinol | 1,403,378 | 3,014,086 | (2,942,080) | (65,384) | 1,410,000 |
| | Cronfa wrth gefn ddynodedig | 927,887 | - | 99,526 | 204,854 | 1,232,267 |
| | Cronfa wrth gefn ailbrisio | 1,140,134 | - | - | (536,290) | 603,844 |
| | Adran Grant Iechyd | 37,849 | - | - | (3,750) | 34,099 |
| | | **3,509,248** | **3,014,086** | **(2,842,554)** | **(400,570)** | **3,280,210** |

**Polisi cronfa wrth gefn** – Mae'r Cyngor wedi cytuno i bolisi cronfeydd wrth gefn cyffredinol sy'n cynnwys cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig. Caiff cronfeydd anghyfyngedig eu rhannu ymhellach yn gronfa gyffredinol, yn gronfa ddynodedig ac yn gronfa ailbrisio. Cronfeydd yw'r rhain lle mae'r rhoddwr wedi pennu cyfyngiadau ar sut y gellir defnyddio'r cronfeydd. Ar hyn o bryd, mae gan y CCC un gronfa gyfyngedig. Mae cronfeydd dynodedig yn cynrychioli'r cronfeydd hynny sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prif brosiectau nad ydynt yn rhan o weithgareddau beunyddiol y CCC.

**Cronfa wrth gefn gyffredinol** – Cytunodd y Cyngor ar bolisi cronfeydd wrth gefn ym mis Mawrth 2019. Y polisi yw dal cronfa wrth gefn rydd (cronfeydd anghyfyngedig minws asedau sefydlog) sy'n gyfwerth â chostau gweithredu anghyfyngedig blynyddol am 6 mis. Caiff y cronfeydd eu dal yn y gronfa gyffredinol. Nid oes gan y Cyngor gyfyngiadau ar y defnydd o'r cronfeydd hyn ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol. Ar 31 Rhagfyr 2023, cyflawnwyd y targed o gronfeydd wrth gefn rydd 6 mis ar £1,630 miliwn.

**Cronfa wrth gefn ddynodedig** – Cronfeydd anghyfyngedig yw'r rhain a glustnodwyd at ddibenion a nodwyd gan y Cyngor. Mae'r gronfa wrth gefn ddynodedig yn cynnwys dwy gronfa. Y rhain yw'r gronfa cwynion sy'n gysylltiedig â rheoleiddio (ar gyfer cynnydd annisgwyl mewn nifer y cwynion sy'n uwch na thueddiadau arferol fel a ddigwyddodd yn 2018) a'r gronfa i dalu costau gweithredu ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni amcanion y cynllun busnes blynyddol os bydd yr incwm blynyddol arferol yn annigonol i fodloni'r costau a gynlluniwyd mewn unrhyw flwyddyn dan sylw. Felly, os bydd digwyddiad o'r fath, mae'r Cyngor wedi neilltuo'r gronfa ddynodedig i fodloni'r heriau ariannol posib hyn.

**NODYN 16:** (parhad)

**Cronfa wrth gefn ailbrisio** – Dengys y buddsoddiadau ar werth ar y farchnad yn y fantolen ac mae'r gronfa ailbrisio'n nodi'r gwahaniaeth rhwng y gwerth ar y llyfrau a'r gwerth ar y farchnad ar ddiwrnod olaf y flwyddyn ariannol. Mae'n adlewyrchu'r enillion neu'r colledion net ar y buddsoddiadau. Caiff y balans ei leihau gan golledion diweddarach ar fuddsoddiadau a restrir sy'n gyfrifadwy i'r swm a ail-brisiwyd.

**Cronfa gyfyngedig** (Grant gan yr Adran Iechyd) – Derbyniodd y CCC grant gan yr Adran Iechyd i'w gwneud hi'n bosib i'r Cygnor ddatblygu system risg gymesur o Ffitrwydd i Ymarfer parhaus (Ail-ddilysu) i Geiropractyddion.

**NODYN 17:** **YMRWYMIADAU PENSIWN**

Mae'r Cyngor yn gwneud taliadau ar ran cyflogeion penodol i gynlluniau pensiwn cyfraniad diffiniedig. Caiff asedau'r cynlluniau eu dal ar wahân i rai'r Cyngor, ac maent yn cael eu buddsoddi mewn cwmnïau yswiriant. Dengys y newid pensiwn ar gyfer y cyfnod yn Nodyn 4 o'r datganiadau ariannol.

**NODYN 18:** **RHWYMEDIGAETH PENSIWN - CYNLLUN CYFRANIAD DIFFINIEDIG**

**CYNLLUN: TPT Retirement Solutions – The Growth Plan**

Mae'r cwmni yn cymryd rhan yn y cynllun, sy'n gynllun sawl cyflogwr sy'n darparu buddion i ryw 638 gyflogwyr sy'n cymryd rhan nad ydynt yn gysylltiedig. Mae'r cynllun yn gynllun buddion diffiniedig yn y DU. Nid yw'n bosib i'w cwmni gael gwybodaeth ddigonol i'w alluogi i ystyried y cynllun fel cynllun buddion diffiniedig. Felly, mae'n ystyried y cynllun fel cynllun cyfraniad diffiniedig.

Mae'r cynllun yn destun y ddeddfwriaeth gyllido a amlinellwyd yn Neddf Pensiynau 2024 a ddaeth i rym ar 30 Rhagfyr 2005. Mae hyn, ynghyd â dogfennau a gyhoeddwyd gan y Rheolydd Pensiynau a'r Safonau Actiwaraidd Technegol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, a amlinellwyd yn y fframwaith ar gyfer cyllido cynlluniau pensiwn galwedigaethol buddion diffiniedig yn y DU.

Mae'r cynllun wedi'i gategoreiddio fel 'trefniant dyn olaf sy'n sefyll'. Felly, mae posibilrwydd y gallai'r cwmni fod yn atebol am rwymedigaethau cyflogwyr eraill sy'n cymryd rhan os na fydd y cyflogwyr hynny'n gallu bodloni eu rhan nhw o ddiffyg y cynllun yn dilyn tynnu'n ôl o'r cynllun. Mae gan gyflogwyr sy'n cymryd rhan ofyniad cyfreithiol i fodloni eu rhan nhw o ddiffyg y cynllun ar sail pryniant blwydd-dal ar dynnu'n ôl o'r cynllun.

Cynhaliwyd prisiad actwaraidd llawn o'r cynllun ar 30 Medi 2020. Dangosodd y prisiad asedau o £800.3 miliwn, rhwymedigaethau o £831.9 miliwn a diffyg o £31.6 miliwn. I ddileu'r diffyg cyllido hwn, mae'r ymddiriedolwr wedi gofyn i gyflogwyr sy'n cymryd rhan i dalu cyfraniadau ychwanegol at y cynllun, fel a ganlyn:

| **Cyfraniadau diffyg** |
|---|
| O 1 Ebrill i 30 Medi 2025: £3,312,000 y flwyddyn (sy'n ddyladwy'n fisol) |

Oni bai y cytunir ar gonsesiwn gyda'r ymddiriedolwyr, mae'r tymor tan 31 Ionawr 2025 yn berthnasol.

Sylwer y cynhaliwyd prisiad blaenorol y cynllun gyda dyddiad yn effeithiol o 30 Medi 2017. Mae'r prisiad yn dangos asedau o £794.9 miliwn, rhwymedigaethau o £926.4 miliwn a diffyg o £131.5 miliwn. I ddileu'r diffyg cyllido hwn, mae'r ymddiriedolwr wedi gofyn i gyflogwyr sy'n cymryd rhan i dalu cyfraniadau ychwanegol at y cynllun, fel a ganlyn:

| **Cyfraniadau diffyg** |
|---|
| O 1 Ebrill i 30 Medi 2025: £11,243,000 y flwyddyn (sy'n ddyledus yn fisol ac yn cynyddu gan 3% bob 1 Ebrill) |

Dyrennir cyfraniadau cynllun adfer i bob cyflogwr sy'n cymryd rhan yn unol â'i rhan amcangyfrifiedig o rwymedigaethau cynllun Cyfres 1 a Chyfres 2.

Lle bydd y cynllun mewn diffyg a lle mae'r cwmni wedi cytuno i drefniant cyllido diffyg, mae'r cwmni'n cydnabod atebolrwydd am y rhwymedigaeth hon. Mae'r swm a gydnabyddir yn werth presennol y cyfraniadau lleihau'r diffyg sy'n ddyladwy o dan y cytundeb sy'n berthnasol i'r diffyg. Caiff y gwerth presennol ei gyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd gostyngiad a fanylir yn y datgeliadau hyn. Mae dad-ddirwyn y gyfradd gostyngiad wedi'i chydnabod fel cost y cyllid.

**NODYN 18:** (parhad)

| **Gwerth presennol y ddarpariaeth** | **31 Rhagfyr 2023 (£)** | **31 Rhagfyr 2022 (£)** | **31 Rhagfyr 2021 (£)** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol y ddarpariaeth Note 15a | 590 | 1,110 | 2,070 |

| **Cysoni darpariaethau agoriadol a chau** | **Cyfnod sy'n dod i ben** 31 Rhagfyr 2023 (£) | **Cyfnod sy'n dod i ben** 31 Rhagfyr 2022 (£) |
|---|---|---|
| Darpariaeth ar ddechrau'r cyfnod | 1,110 | 2,070 |
| Dad-ddirwyn y ffactor gostyngiad (cost llog) | 40 | 17 |
| Cyfraniad diffyg a dalwyd | (559) | (936) |
| Ail-fesuriadau - effaith unrhyw newid mewn tybiaethau | (1) | (41) |
| Ail-fesuriadau - addasiadau i'r atodlen o gyfraniadau | - | - |
| Darpariaeth ar ddiwedd y cyfnod | 590 | 1,110 |

| **Effaith incwm a gwariant** | **Cyfnod sy'n dod i ben** 31 Rhagfyr 2023 (£) | **Cyfnod sy'n dod i ben** 31 Rhagfyr 2022 (£) |
|---|---|---|
| Cost llog | 40 | 21 |
| Ail-fesuriadau - effaith unrhyw newid mewn tybiaethau | (1) | (41) |
| Ail-fesuriadau - addasiadau i'r atodlen o gyfraniadau | - | - |
| Cyfraniadau a delir mewn perthynas â gwasanaeth y dyfodol* | * | * |
| Costau cydnabyddedig mewn cyfrif incwm a gwariant | * | * |

*Sy'n cynnwys cynlluniau cyfraniadau diffiniedig a chyfraniadau gwasanaeth y dyfodol (h.y., eithrio unrhyw daliadau lleihau diffyg) i gynlluniau buddion diffiniedig sy'n cael eu trin fel cynlluniau cyfraniadau diffiniedig.
I'w gwblhau gan y cwmni.

| **Tybiaethau** | 31 Rhagfyr 2023 % y flwyddyn | 31 Rhagfyr 2022 % y flwyddyn | 31 Rhagfyr 2021 % y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Cyfradd y gostyngiad | 5.31 | 4.96 | 1.18 |

Mae'r cyfraddau gostyngiad uchod yn cyfateb i gyfraddau gostyngiad unigol y byddai'n rhoi'r un canlyniadau wrth gael ei ddefnyddio i leihau'r cyfraniadau cynllun adfer sy'n ddyledus â defnyddio cromlin cynnyrch bondiau corfforaethol AA i fod yn ostyngiad i'r un cyfraniadau cynllun adfer.

**Atodlen Cyfraniadau Diffyg**

Mae'r atodlen ganlynol yn rhoi manylion y cyfraniadau diffyg y cytunwyd arnynt rhwng y cwmni a'r cynllun ar gyfnod dod i ben bob blwyddyn:

| **Blwyddyn yn dod i ben** | **31 Rhagfyr 23** (£s) | **31 Rhagfyr 22** (£s) | **31 Rhagfyr 21** (£s) |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | 559 | 559 | 936 |
| Blwyddyn 2 | 47 | 559 | 559 |
| Blwyddyn 3 | - | 47 | 559 |
| Blwyddyn 4 | - | - | 47 |
| Blwyddyn 5 | - | - | - |

Rhaid i'r cwmni gydnabod atebolrwydd a fesurir ar werth presennol y cyfraniadau sy'n ddyladwy sy'n deillio o'r cytundeb adferiad diffyg a'r gost sy'n ganlyniad yn y cyfrif incwm a gwariant, h.y. dad-ddirwyn yn y gyfradd gostwng fel cost gyllidol yn y cyfnod y mae'n codi ynddo.

Y cyfraniadau hyn sydd wedi cael eu defnyddio i ddeilio atebolrwydd mantolen y cwmni.

**NODYN 19: FFIOEDD A THREULIAU AELODAU O'R CYNGOR**

| | Cyflog (1) | Treuliau a dalwyd 2023 (2) | Cyflog (1) | Treuliau a dalwyd 2022 (2) |
|---|---|---|---|---|
| Samuel Guillemard | 4,550 | 633 | - | - |
| Aaron Porter | 3,250 | - | - | - |
| Steven Gould | 9,800 | - | 6,650 | - |
| Fergus Devitt | 9,800 | 960 | 6,650 | 1,039 |
| Catherine Kelly | 7,542 | 1,486 | - | - |
| Carl Stychin* | 650 | - | 6,650 | 6 |
| Philip Yalden | - | - | 6,650 | 392 |
| Mary Chapman | 27,000 | 346 | 23,000 | 530 |
| Keith Richards | 7,800 | - | 6,650 | - |
| Sharon Oliver** | 6,008 | 559 | 6,650 | 628 |
| Ralph Pottie | 7,800 | 2,641 | 6,650 | 1,254 |
| Annie Newsam | 7,800 | 1,461 | 6,650 | 536 |
| Keith Walker | 7,800 | 1,570 | 6,650 | 646 |
| Jennifer Adams | 7,800 | 1,011 | 6,650 | 833 |
| Elisabeth Angier | 7,800 | 1,831 | 6,650 | 648 |
| | **115,400** | **12,498** | **96,150** | **6,512** |

*Tymor a ddaeth i ben 31 Ionawr 2023.
**Tymor a ddaeth i ben 30 Gorffennaf 2023.
Mae'r tabl uchod yn dangos y ffioedd sy'n ddyladwy ar gyfer gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a threuliau gwirioneddol a ad-dalwyd yn unig.

**(1) Cyflog**
Caiff aelodau o'r Cyngor eu talu ar gyflog o £7,800 y flwyddyn. Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd yw £27,000 y flwyddyn. Mae'r taliadau hyn yn destun Treth ac Yswiriant Cenedlaethol.

**(2) Treuliau**
Hawliwyd treuliau gan aelodau am deithio, llety a chynhaliaeth a chawsant eu had-dalu gan y CCC. O ran llety, mae rhai aelodau'n archebu ac yn talu am ofynion llety'n uniongyrchol a chaiff y treuliau hyn eu had-dalu gan y CCC yn unol â'r polisi treuliau. Ar gyfer y rhan fwyaf o aelodau, bydd y CCC yn archebu llety ac yn gwneud taliadau'n uniongyrchol i'r gwesty ar gyfer y llety.

**Presenoldeb mewn Cyfarfodydd y Cyngor**
Gwnaeth y Cyngor gwrdd bedairgwaith yn 2023. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gyfarfodydd deuddydd, gyda'r ail ddydd wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu a datblygu a thrafod cynllunio strategaeth.

# Manylion cyfreithiol a gweinyddol

**Prif Weithredwr a Chofrestrydd** Nick Jones

**Prif Gyfeiriad**

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
Park House
186 Kennington Park Road
Park Road
Llundain
SE11 4BT

**Uwch-dîm Gweithredol**

Nick Jones, Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Penny Bance, Cyfarwyddwr Datblygu

Joe Omorodion, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Niru Uddin, Cyfarwyddwr Ffitrwydd i Ymarfer

**Cyfreithwyr**

Capsticks Solicitors LLP
1 St George's House East
St George's Road
Wimbledon
Llundain
SW19 4DR

DLA Piper UK LLP
160 Aldergate Street
Llundain
EC1A 4HT

Fieldfisher LLP
Riverbank House
2 Swan Lane
Llundain
EC4R 3TT

**Bancwyr**

Santander Bank
Bridle Road Bootle
Merseyside
L30 4GB

**Archwilwyr**

Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

**Rheolwyr Buddsoddi**

Cazenove Capital Management
Schroder & Co Ltd 1
2 Moorgate
Llundain
EC2R 6DA

## Sut fyddech chi'n sgorio'r ddogfen hon?

Cliciwch ar wyneb, neu sganiwch y côd QR i rannu eich barn


Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
Park House
186 Kennington Park Road
Llundain
SE11 4BT

Rhif ffôn: +44 020 7713 5155
E-bost: enquiries@gcc-uk.org
Gwefan: cy.gcc-uk.org
Twitter: @GenChiroCouncil
W3W: gains.fairly.rang


Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Cyhoeddwyd Mai 2024